


YSGOL UWCHRADD BODEDERN



Polisi Diogelu Data Ysgolion / *Schools* *Data Protection Policy*

(Fersiwn 3, Mai 2023 / *Version 3, May 2023*)

Ysgol Uwchradd Bodedern

Polisi Diogelu Data Ysgolion / Schools *Data Protection Policy*

(Fersiwn 3, Mai 2023 / Version 3, May 2023)

Ynglŷn â'r polisi hwn

Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r hyn y mae'n rhaid i'r ysgol ei wneud i sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei rheoli a'i hamddiffyn a'i bod yn sicrhau cydymffurfriad cyflawn â deddfwriaeth diogelu data.

Cefnogir y polisi hwn gan adnoddau ar dudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

About this policy

This policy outlines what the school needs to do to ensure that personal information is properly managed and protected and that it ensures full compliance with data protection legislation.

This policy is supported by resources on the Data Protection page on the Learning Service Microsite.

Fersiwn / Version	Dyddiad / Date	Crynodeb o newidiadau / Summary of changes	Dyddiad a Dderbyniwyd gan Fwrdd o Lywodraethwyr / Date Accepted by Board of Governors
F1/V1	Rhagfyr 2020 / December 2020	Polisi newydd / New policy.	
F2/V2	Ebrill 2022 / April 2022	Adolygiad blynyddol o'r polisi / Annual review of the policy	
F3/V3	Mai 2023 / May 2023	Adolygiad blynyddol o'r polisi / Annual review of the policy	09.05.2023

Dyddiad yr adolygiad nesaf / Date of next review	
Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu yn: / This policy will be reviewed in:	Mai 2024 / May 2024
Yr unigolyn a fydd yn ymgymryd â'r adolygiad fydd: / The review will be undertaken by:	Swyddog Diogelu Data Ysgolion / Schools Data Protection Officer

Manylion Cyswllt:

Swyddog Diogelu Data Ysgolion

E-bost:

dpoysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru

Rhif ffôn: 01248 751833

Cyfeiriad:

Gwasanaeth Dysgu

Cyngor Sir Ynys Môn

Swyddfeydd y Cyngor

Llangefni

Ynys Môn

LL77 7TW

Contact Details:

Schools Data Protection Officer

E-mail:

dpoysgolionmon@anglesey.gov.wales

Telephone: 01248 751833

Address:

Learning Service

Isle of Anglesey County Council

Council Offices

Llangefni

Anglesey

LL77 7TW

Rydym yn hapus i ddarparu'r polisi hwn ar ffurfiau eraill ar gais. Defnyddiwch y manylion cyswllt uchod. / We are happy to provide this policy in alternative formats on request. Please use the above contact details.

Dogfen:**Document:**

Templed polisi ar y ddeddfwriaeth diogelu data, sef y *Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig (UK GDPR)* a'r *Ddeddf Diogelu Data 2018*. / Policy template on the data protection legislation namely the UK General Data Protection Regulation (UK GDPR) and the Data Protection Act 2018.

Cyfrifoldeb:**Responsibility:**

Cyfrifoldeb y llywodraethwyr ysgol a'r Pennaeth fel y rheolydd data yw sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. / It is the responsibility of the school governors and the Headteacher as the data controller to ensure procedures are in place to ensure that the school complies with data protection legislation.

Cynnwys	Tudalen
1. Datganiad Polisi	5
2. Sgôp	5
3. Deddfwriaeth, Arweiniad a Pholisïau	6
4. Cyfrifoldebau	6
4.1. Corff Llywodraethu Ysgol	7
4.2. Pennaeth (ac/neu'r Unigolyn sy'n Gyfrifol am Ddiogelu Data yn yr Ysgol)	7
4.3. Holl Staff yr Ysgol	8
4.4. Swyddog Diogelu Data Ysgolion	8
5. Egwyddorion Diogelu Data	9
6. Hawliau'r Gwrthrych Data	10
6.1. Yr hawl i gael gwybod	10
6.2. Yr hawl i fynediad	10
6.3. Yr hawl i gywiro	11
6.4. Yr hawl i ddileu	12
6.5. Yr hawl i gyfyngu ar brosesu	12
6.6. Yr hawl i gludadwyedd data	13
6.7. Yr hawl i wrthwynebu	13
6.8. Hawliau'n ymwneud â phroffilio a gwneud penderfyniadau awtomataidd	13
6.9. Hawliau eraill	14
7. Hawliau Plant	14
8. Hawliau Rhieni	15
9. Amodau dros Brosesu (Sail Gyfreithiol)	15
9.1. Erthygl 6	15
9.2. Erthygl 9	16
10. Categoriâu Arbennig o Ddata Personol	17
11. Caniatâd	18
12. Cywirdeb a Pherthnasedd	19
13. Cadw Gwybodaeth Bersonol	19
14. Cofnodi Data	19
15. Cofnodion o Weithgareddau Prosesu (ROPA)	19
16. Datgelu a Rhannu Gwybodaeth	21
16.1. Cais gan Drydydd Parti am Wybodaeth Bersonol Unigolyn	22
16.2. Amddiffyn Plant ac Oedolion Bregus	23
17. Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth	23
17.1. Cynllun Cyhoeddi	24
18. Digwyddiadau Diogelwch Data	25
19. Rhannu Pryderon Diogelu Data	27
20. Rhestr o Asedau Gwybodaeth	27
21. Hysbysiad Preifatrwydd	27
22. Asesiadau Effaith Diogelu Data (DPIAau)	28
23. Diogelwch Gwybodaeth	29
23.1. Ysgol	29

23.2. Sefydliadau Allanol	29
24. Storio Gwybodaeth Bersonol yn Ddiogel	30
24.1. Cofnodion Papur	30
24.2. Cofnodion Electronig	31
25. Cael Gwared â Gwybodaeth Bersonol yn Ddiogel	31
26. Ffi Diogelu Data Flynyddol	32
27. Ffotograffau a Delweddau	32
28. Gwefan a Chyfryngau Cymdeithasol	33
29. E-bost	33
30. CCTV (os yn berthnasol)	34
31. Gwybodaeth Fiometrig (os yn berthnasol)	34
32. Trosglwyddiadau Data Rhyngwladol	35
33. Parhad Busnes ac Adfer Trychinebau	35
34. Hyfforddiant	36
35. Torri'r Polisi	36
36. Adolygu'r Polisi a Threfniadau Arolygiaeth	36
ATODIAD A- Rhestr Termau, Diffiniadau a Deddfwriaeth Diogelu Data Ysgolion Dwyieithog	72
English Version	38

1. Datganiad Polisi

Er mwyn gweithredu'n effeithlon, mae'n rhaid i'r ysgol gasglu a defnyddio gwybodaeth am unigolion y mae'n gweithio gyda. Yn ogystal â hyn, gall fod yn gyfreithiol ofynnol i gasglu a defnyddio gwybodaeth er mwyn cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru.

Mae'r polisi hwn yn amlinellu sut mae'r ysgol yn cydymffurfio â rhwymedigaethau diogelu data ac yn ymfyn i ddiogelu gwybodaeth bersonol (*gweler ATODIAD A ar gyfer y diffiniad perthnasol*). Mae'r ysgol yn llawn ymrwymedig i sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei rheoli a'i hamddiffyn yn iawn a'i bod yn sicrhau cydymffurfiaid llawn â deddfwriaeth diogelu data.

Ei bwrbas hefyd yw sicrhau bod yr holl aelodau staff yn deall ac yn cydymffurfio â'r rheolau yn ymwneud â chasglu, defnyddio a dileu data personol y gallent gael mynediad ato yng nghwrs eu gwaith. Mi fydd yr ysgol yn sicrhau ei fod yn trin gwybodaeth bersonol yn gyfreithlon ac yn gywir.

Bydd yr ysgol yn gwneud pob ymdrech i gwrdd â'i rhwymedigaethau dan y ddeddfwriaeth ac yn adolygu gweithdrefnau'n rheolaidd i sicrhau ei bod yn gwneud hynny. Bydd yr ysgol yn ymgynghori gyda'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion ac yn ymfyn am ei chynghor ynglŷn ag unrhyw broblemau, pryderon neu gwestiynau a chyn dechrau ar unrhyw weithgareddau prosesu data newydd.

2. Sgôp

Mae'r polisi hwn yn berthnasol ar gyfer pob gweithiwr, llywodraethwr, contractwr, asiantaeth, cynrychiolydd, a staff dros dro sy'n gweithio i'r ysgol ac sy'n prosesu data personol ar ran yr ysgol.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol ar gyfer gwybodaeth bersonol ymgeiswyr swyddi, staff presennol a blaenorol, gan gynnwys gweithwyr, gweithwyr dros dro ac asiantaeth, llywodraethwyr, cyflenwyr, gwirfoddolwyr, hyfforddai/myfyrwyr, ymwelwyr, disgyblion a rhieni/y sawl sydd â'r cyfrifoldeb rhieni.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol ar gyfer yr holl wybodaeth bersonol a grëir neu a ddalir gan yr ysgol ym mha bynnag fformat (gan gynnwys ond ddim wedi'w gyfyngu i bapur, electronig, e-bost, ffilm, fideo, CCTV, delweddau ffotograffig) a sut bynnag y caiff ei storio (er enghraifft system/bas data TGCh, strwythur ffeilio gyriant a rennir, e-bost, cwpwrdd ffeilio, silffoedd a droriau).

Mae'r egwyddorion hefyd yn ymestyn i'r holl wybodaeth mewn cofnodion addysg. Enghreifftiau o hyn fyddai enwau staff a disgyblion, dyddiadau geni, cyfeiriadau, rhifau yswiriant gwladol, marciau ysgol, gwybodaeth feddygol, canlyniadau arholiad, asesiadau AAA, adolygiadau datblygiad a chofnodion disgyblaethol staff.

Nid yw *UK GDPR* yn berthnasol ar gyfer unigolion sydd wedi marw gan nad yw gwybodaeth am berson sydd wedi marw yn cyfrif fel gwybodaeth personol ac felly ddim yn dod o dan *UK GDPR*.

3. Deddfwriaeth, Arweiniad a Pholisïau

Y brif ddeddfwriaeth diogelu data y mae'r polisi hwn yn cydymffurfio â hi yw'r *Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig (UK GDPR)* a *Deddf Diogelu Data 2018*.

Mae'r polisi hwn hefyd yn seiliedig ar godau ymarfer ac arweiniad a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

Bydd yr ysgol hefyd yn cyfeirio at bolisïau a chanllawiau mewnol perthnasol eraill sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth am ddiogelu gwybodaeth bersonol mewn cyd-destunau eraill, gan gynnwys:

- *Polisi Diogelwch Gwybodaeth Ysgolion.*
- *Polisi Digwyddiadau Diogelwch Data Ysgolion.*
- *Polisi Cais gan Wrthrych y Data Ysgolion.*
- *Gweithdrefn ar gyfer Rhannu Gwybodaeth gydag Awdurdodau'r Heddlu yn y Deyrnas Unedig (Gwynedd a Môn).*
- *Polisi Prosesu Data Ysgolion.*
- *Polisi Trosglwyddo Cofnodion Ysgol i Archifdy Ynys Môn.*
- *Polisi Asesiad Effaith Diogelu Data Ysgolion.*
- *Polisi E-bost Staff Ysgolion.*
- *Polisi CCTV Ysgolion.*
- *Polisi Rheoli Cofnodion Ysgolion.*
- *Polisi E-Ddiogelwch Ysgolion.*
- *Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Staff Ysgolion.*
- *Polisi Tynnu Lluniau i Bwrpas Cyhoedduswydd Ysgolion.*
- *Cyfnodau Cadw Cofnodion.*

Mae'r rhain i gyd ar gael ar y dudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

4. Cyfrifoldebau

Mae diogelu data personol yn gyfrifoldeb ar bawb. Mae'n rhaid i'r holl aelodau staff sicrhau eu bod yn ymrwymedig i gydymffurfio â rhwymedigaethau diogelu data.

Mae'r *UK GDPR* a *Deddf Diogelu Data 2018* yn nodi bod rhaid i ysgolion 'arddangos' y maent yn cydymffurfio gyda'r deddfwriaeth.

Bydd yn ofynnol i ysgolion dystiolaethu cydymffurfiad er mwyn cyrraedd yr egwyddor hollgyffredinol o atebolrwydd.

Yr ysgol fel y rheolydd data sydd efo'r cyfrifoldeb yn y pen draw ar gyfer cydymffurfio efo deddfwriaeth diogelu data. Ni ellir dirprwyo y cyfrifoldeb yma i'r Awdurdod Lleol ac ni ellir ei ddirprwyo i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion nac i broseswyr data.

4.1. Corff Llywodraethu Ysgol

Mae'r corff llywodraethu ysgol yn gyfrifol am:

- sicrhau bod y polisi yma wedi cael ei fabwysiadu'n ffurfiol gan yr ysgol.
- gydymffurfiaid cyffredinol yr ysgol gyda'r *UK GDPR* a *Deddf Diogelu Data 2018*.
- cynnal trosolwg strategol o gydymffurfiaid yr ysgol drwy ofyn am gael gweld tystiolaeth o gydymffurfiaid ac ymgymryd ag ymweliadau monitro i'r ysgol.
- penodi llywodraethwr fel Pencampwr Diogelu Data ar y corff llywodraethu.
- trafod problemau a materion diogelu data yn rheolaidd yn y cyfarfodydd corff llywodraethu.
- monitro'r risgiau diogelu data a adnabyddir yn yr ysgol a monitro gweithredoedd sydd ar waith i liniaru'r risgiau hyn.
- ymgymryd â hyfforddiant diogelu data a gynhigir.

4.2. Pennaeth (ac/neu'r Unigolyn sy'n Gyfrifol am Ddiogelu Data yn yr Ysgol)

Mae'r Pennaeth ac/neu'r unigolyn sy'n gyfrifol am ddiogelu data yn yr ysgol yn gyfrifol am:

- sicrhau cydymffurfiaid â'r *UK GDPR* a *Deddf Diogelu Data 2018* o fewn gweithgareddau dyddiol yr ysgol.
- bod yn gynrychiolydd i'r ysgol fel rheolydd data.
- sicrhau a hyrwyddo dealltwriaeth a chydymffurfiaid gyda'r polisi hwn a pholisïau statudol a rheoliadol eraill mewn perthynas â diogelu data.
- cadw *Rhestr Asedau Gwybodaeth* a *Chofnodion o Weithgareddau Prosesu (ROPA)* yr ysgol yn gyfredol a'u diweddarau'n rheolaidd.
- sicrhau y rheolir asedau a risgiau gwybodaeth yn yr ysgol.
- sicrhau bod yr ysgol wedi cofrestru a thalu'r ffi diogelu data blynyddol i'r ICO.
- cynnal archwiliadau mewnol sy'n monitro cydymffurfiaid.
- sicrhau bod gwybodaeth perthnasol a chefnogaeth yn cael ei ddarparu ynglyn â ceisiadau gan wrthrych y data fel bod ceisiadau yn cael eu prosesu o fewn un mis calendr.
- sefydlu diwylliant adrodd a dysgu i ganiatáu'r ysgol i sefydlu ble mae problemau'n bodoli a datblygu strategaethau gyda'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion i atal problemau rhag digwydd yn y dyfodol.
- gweithio gyda, a gweithredu fel prif gyswllt, rhwng yr ysgol a'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion i sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau diogelu data.

Gall yr ysgol benodi aelod o staff i fod yr unigolyn sy'n **gyfrifol** am ddiogelu data yn yr ysgol a fydd yn delio â thasgau a chyfrifoldebau diogelu data dyddiol, ond **na fydd** yn ymgymryd â **chyfrifoldebau statudol Swyddog Diogelu Data** (gan bod y rôl yma â statws cyfreithiol). Bydd y cyfrifoldeb cyfreithiol hwn yn parhau gyda'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion.

4.3. Holl Staff yr Ysgol

Mae'r holl staff a gyflogir gan yr ysgol neu sy'n gwirfoddoli yn yr ysgol, gan gynnwys athrawon, cymorthyddion dosbarth a staff cefnogi busnes yn gyfrifol am:

- gydymffurfio'n unigol ac ar y cyd gyda'r *UK GDPR* a *Deddf Diogelu Data 2018* o fewn gweithgareddau dyddiol yr ysgol.
- sicrhau y cadw'r ac y prosesir gwybodaeth bersonol yn unol â'r *UK GDPR* a *Deddf Diogelu Data 2018*.
- hysbysu'r Pennaeth ac/neu'r person sy'n gyfrifol am ddiogelu data yn yr ysgol yn syth o unrhyw ddigwyddiadau, pryderon, ceisiadau neu dor-rheolau mewn perthynas â diogelu data.
- hysbysu'r Pennaeth o unrhyw newidiadau i fanylion personol er mwyn cynorthwyo'r ysgol i gadw gwybodaeth bersonol am staff yn gyfredol.
- sicrhau dealltwriaeth a chydymffurfiad â'r polisi hwn.
- sicrhau dealltwriaeth a chydymffurfiad â'r holl bolisïau sy'n gysylltiedig â diogelu a diogelwch data.
- mabwysiadu safonau arfer dda mewn perthynas â diogelu data.
- ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant diogelu data a gynhigir.

4.4. Swyddog Diogelu Data Ysgolion

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn gyfrifol am:

- hysbysu a chynghori ysgolion ar eu rhwymedigaethau diogelu data.
- monitro cydymffurfiad a pherfformiad yn erbyn rhwymedigaethau, gan gynnwys cynnal archwiliadau ac adolygiadau diogelu data.
- darparu cyngor, arweiniad ac argymhellion ar effaith ymdrechion a materion diogelu data'r ysgol.
- darparu adroddiad sicrwydd llywodraethu gwybodaeth i gorff llywodraethu'r ysgol yn flynyddol, a darparu adroddiad crynodeb blynyddol lefel uchel ar yr holl ysgolion i Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth Dysgu ac i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Sir Ynys Môn.
- creu ac adolygu gweithdrefnau, polisïau, arweiniad a thempledi diogelu data yn rheolaidd.
- hwyluso a chefnogi'r ysgol i ymateb i geisiadau gan wrthrych y data o fewn y cyfnod o amser.
- cefnogi a darparu cyngor yn achos digwyddiad diogelwch data.
- gwirio a chymeradwyo trydydd partion sy'n ymdrin â data'r ysgol, unrhyw gontractau neu gytundebau ynglŷn â phrosesu data.
- trefnu a darparu hyfforddiant diogelu data i staff mewn ysgolion gan gynnwys llywodraethwyr ysgol.

- bod yn bwynt cyswllt cyntaf i unigolion y mae'r ysgol yn prosesu eu data, ac ar gyfer yr ICO.

Dylai'r ysgol gefnogi'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion i gyflawni eu rôl drwy sicrhau:

- bod y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn ymwneud yn agos ac mewn ffordd amserol, â holl materion diogelu data.
- bod y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn adrodd i'r lefel rheoli uchaf yr ysgol h.y. lefel Bwrdd Llywodraethu Ysgol.
- bod y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn gweithredu yn annibynnol o'r ysgol.
- bod yr ysgol yn rhoi mynediad priodol i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion at ddata personol ac i weithgareddau prosesu.
- bod yr ysgol yn rhoi mynediad priodol i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion at wasanaethau eraill o fewn yr ysgol fel bod nhw yn gallu derbyn cefnogaeth, mewnbyn neu wybodaeth hanfodol.
- bod yr ysgol yn gofyn am gyngor y Swyddog Diogelu Data Ysgolion pan yn cwblhau DPIA; a
- bod yr ysgol yn nodi manylion y Swyddog Diogelu Data Ysgolion fel rhan o gofnodion prosesu gweithgareddau yr ysgol.

Yr ysgol fel y rheolydd data sydd â'r cyfrifoldeb i gydymffurfio â'r UK GDPR a deddfwriaeth diogelu data eraill. Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn chwarae rôl hanfodol yn cynorthwyo'r ysgol i gyflawni oblygiadau diogelu data yr ysgol, ond ni ellir gymryd cyfrifoldeb o gydymffurfiaeth diogelu data yr ysgol.

5. Egwyddorion Diogelu Data

Mi fydd dull ymdrin â diogelu data yr ysgol yn 'diogelu data drwy dylunio a rhagosod' a 'preifatrwydd drwy ddylunio', fel mae'r UK GDPR yn ymofyn. Mae hyn yn golygu bod angen integreiddio diogelu data i fewn i weithgareddau prosesu ac ymarferion busnes yr ysgol, o'r cam dylunio ac ar hyd cylch bywyd y broses.

Bydd yr ysgol yn cydymffurfio â'r **chwe egwyddor diogelu data sylfaenol** canlynol wrth brosesu gwybodaeth bersonol:

1. Bydd gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu mewn modd cyfreithiol, teg a thryloyw.
2. Bydd gwybodaeth bersonol yn cael ei chasglu at ddibenion penodedig, eglur a chyfreithlon yn unig, ac ni chaiff ei phrosesu mewn ffordd sy'n anghydnaws â'r dibenion cyfreithiol hynny.
3. Bydd ond yn prosesu gwybodaeth bersonol os yw'n ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol at y dibenion perthnasol (lleihau data).

4. Mae'n rhaid cadw gwybodaeth bersonol yn gywir ac yn gyfredol, a bydd camau rhesymol yn cael eu cymryd i sicrhau bod gwybodaeth bersonol anghywir yn cael ei dileu neu ei chywiro heb oediad.
5. Bydd gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw ar ffurf sy'n caniatáu adnabod gwrthrychau data am ddim hirach na'r hyn sy'n angenrheidiol at y dibenion y caiff yr wybodaeth ei phrosesu ar eu cyfer.
6. Bydd gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu'n ddiogel. Bydd mesurau diogelwch technegol yn cael eu cymryd i sicrhau y cadwir data personol yn ddiogel a'i fod yn cael ei amddiffyn rhag cael ei brosesu'n anawdurdodedig neu'n anghyfreithlon, ac yn erbyn colled, dinistr neu niwed damweiniol.

Bydd yr ysgol yn adolygu pwrpasau'r gweithgaredd prosesu penodol ac yn dewis y sail (neu seiliau) gyfreithiol fwyaf priodol ar gyfer y prosesu hwnnw cyn i'r prosesu ddechrau am y tro cyntaf ac yna'n rheolaidd wrth iddo barhau. Gwelir rhan 9 ar gyfer diffiniadau o weithgareddau prosesu penodol.

Mae'n rhaid i'r ysgol allu **arddangos** cydymffurfiad â'r egwyddorion hyn. Os na all yr ysgol gydymffurfio â'r chwe egwyddor i gyd, **ni ddylid** prosesu data.

6. Hawliau'r Gwrthrych Data

Mae deddfwriaeth diogelu data yn rhoi'r hawliau canlynol i unigolion:

1. Yr hawl i gael gwybod.
2. Yr hawl i fynediad.
3. Yr hawl i gywiro.
4. Yr hawl i ddileu.
5. Yr hawl i gyfyngu ar brosesu.
6. Yr hawl i gludadwyedd data.
7. Yr hawl i wrthwynebu.
8. Hawliau'n ymwneud â phroffilio a gwneud penderfyniadau awtomataidd.

Bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn cefnogi'r ysgol i ymdrin ag unrhyw geisiadau gan unigolion i ymarfer eu hawliau.

6.1. Yr hawl i gael gwybod

Mae gan unigolion yr hawl i wybod bod gwybodaeth amdanynt yn cael ei phrosesu. Bydd yr ysgol yn hysbysu unigolion drwy *Hysbysiad Preifatrwydd*, ar y pwynt o gasglu'r gwybodaeth, o sut, pam ac ar ba sail y prosesir yr wybodaeth honno.

6.2. Yr hawl i fynediad

Mae gan unigolion yr hawl i dderbyn cadarnhad bod eu gwybodaeth yn cael ei phrosesu a hefyd i wneud cais am fynediad at a chael copïau o wybodaeth bersonol y mae'r ysgol yn ei chadw amdanynt neu wybodaeth am blentyn y maent yn gyfrifol amdano (ceisiadau gan wrthrych y data - SAR).

Gellir gwneud cais gan wrthrych y data ar lafar neu'n ysgrifenedig ond mae'n rhaid iddo fod yn gwbl glir pa wybodaeth bersonol y gwneir cais amdani.

Cyn ymateb i gais gan wrthrych y data, bydd camau rhesymol yn cael eu cymryd i wirio hunaniaeth yr unigolyn sy'n gwneud y cais ac a oes ganddynt yr awdurdod i ofyn am wybodaeth ar ran unigolyn arall. Mae'n bosib gofyn am wybodaeth ychwanegol i gadarnhau hunaniaeth ac mae'n bosib gofyn am gael gweld dogfennau hunaniaeth megis trwydded yrru neu basbort a fydd yn gwirio hunaniaeth yr unigolyn.

Unwaith y derbynnir cais gan wrthrych y data, mae'n rhaid darparu'r wybodaeth a ofynnir amdani heb oediad ac ar yr hwyrach o fewn **un mis calendr** o dderbyn y cais. Os yw cais gan wrthrych y data yn gymhleth (h.y. os yw cais yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol, neu os oes angen cael data o fwy nag un ffynhonnell neu os yw'r gwrthrych data wedi gwneud ceisiadau niferus (yn gyfredol ai pheidio)), gellir rhoi estyniad o hyd at ddau fis pellach i'r cyfnod ymateb. Bydd yr ymgeisydd yn cael ei hysbysu os bydd yr amserlen yn cael estyniad a'r rhesymau dros hynny. Disgwylir i'r ysgol ymateb o fewn y cyfnod hyd yn oed os yw gwyliau ysgol yn digwydd yn ystod y cyfnod ymateb. Bydd yr ysgol yn hysbysu disgyblion a rhieni/y sawl â'r cyfrifoldeb rhieniol bod mynediad cyfyngedig i geisiadau yn ystod y tymor ysgol, ond y bydd yn dal i ddelio â cheisiadau o fewn y cyfnod ymateb.

Mae cyfnodau amser cyfyngedig i ymateb i gais, a gall unrhyw oediad arwain at beidio â gallu cwrdd â'r amseroedd hynny, a gall hyn arwain at gamau gorfodaeth gan yr ICO ac/neu gamau cyfreithiol gan yr unigolyn yr effeithir.

Dan rhai amgylchiadau, gall yr ysgol fod wedi ei heithrio rhag darparu peth neu'r holl ddata personol a ofynnwyd amdano. Dylid ond rhoi eithriadau ar sail achos fesul achos ar ôl ystyried yr holl ffeithiau'n ofalus. Bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn darparu cyngor ac arweiniad ar ba wybodaeth y gellir ac na ellir ei rhannu.

Bydd yr ysgol yn casglu a choladu'r holl ddata personol a ofynnwyd amdano. Bydd angen i'r ysgol gasglu'r holl gofnodion electronig a phapur sy'n cynnwys data personol mewn ffeiliau, e-byst, CCTV, llythyrau, adroddiadau a delweddau.

Ni all yr ysgol godi ffi am ddelio a cheisiadau gan wrthrych y data. Fodd bynnag, os yw cais yn ddi-sail, yn ormodol ac wedi cael ei gyflwyno'n flaenorol, mae gan yr ysgol yr hawl i godi ffi weinyddol 'rhesymol'. Mi fydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn gallu rhoi arweiniad o ran be sydd yn cael ei ystyried yn 'ffi resymol'.

Bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn darparu ffigyrau ynglŷn â'r nifer o geisiadau gan wrthrych y data a dderbyniwyd yn yr adroddiad sicrwydd llywodraethiant gwybodaeth blynyddol i gorff llywodraethu'r ysgol. Bydd ffigyrau hefyd yn cael eu cynnwys yn adroddiad crynodeb lefel uchel blynyddol y Swyddog Diogelu Data Ysgolion ar yr holl ysgolion, a gyflwynir i Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth Dysgu a Phwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Sir Ynys Môn.

Bydd yr ysgol yn dilyn y *Polisi Delio gyda Chais gan Wrthrych Data Ysgolion* ar sut i ddelio gyda cheisiadau gan wrthrych y data, sydd ar gael ar dudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

6.3. Yr hawl i gywiro

Mae gan unigolion yr hawl i gywiro eu data personol os yw'n anghywir neu'n anghyflawn. Bydd yr ysgol yn cywiro'r data personol cyn gynted â phosib ac yn gwneud hynny o fewn un mis calendr o dderbyn y cais i gywiro. Gellir rhoi estyniad o ddau fis i hyn lle mae cais i gywiro yn gymhleth. Dylid gwneud nodyn ar gofnodion perthnasol os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â chywirdeb wrth ddelio â'r cais.

Efallai na fydd yn bosib i'r ysgol newid neu ddileu'r wybodaeth bersonol ar bob achlysur, ond dylid cywiro unrhyw beth sy'n ffeithiol anghywir.

Lle na fydd yr ysgol yn gweithredu mewn ymateb i'r cais i gywiro, bydd yr ysgol yn egluro'r rhesymau pam i'r unigolyn ac yn eu hysbysu o'u hawl i gwyno i'r ICO. Mi fydd yr ysgol yn gwneud cofnod o hyn.

6.4. Yr hawl i ddileu

Mae gan unigolion yr hawl i ofyn am gael dileu neu gael gwared â gwybodaeth bersonol a gadwir amdanynt os nad yw'r data bellach yn angenrheidiol at y diben y cafodd ei chasglu/ei phrosesu yn wreiddiol, neu os nad oes seiliau cyfreithiol pwysig dros ei phrosesu. Enw arall am yr hawl hon yw'r hawl i anghof.

Gellir ond gwrthod cais i ddileu os yw eithriad yn berthnasol, ond mae'n debygol y bydd eithriad yn berthnasol yng nghyd-destun dileu cofnodion ysgol. Bydd yr ysgol yn ystyried pob cais ar sail unigol. Bydd yr ysgol yn ymateb i'r cais i ddileu o fewn un mis calendr.

Gall yr ysgol wrthod cais i ddileu data personol:

- lle mae'n rhaid i'r ysgol gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol (dros gadw'r data).
- i amddiffyn buddiannau hanfodol unigolion neu ar gyfer tasgau a gynhelir er buddiannau'r cyhoedd.
- wrth archifo mewn perthynas â buddiannau'r cyhoedd, ymchwil gwyddonol/hanesyddol neu at ddibenion ystadegol.
- pan fydd y data personol yn ofynnol ar gyfer ymarfer hawliadau cyfreithiol.
- pan fydd y prosesu'n angenrheidiol i ymarfer yr hawl i ryddid mynegiant a gwybodaeth.

Bydd yr ysgol yn hysbysu trydydd bartïon sydd hefyd yn prosesu'r data personol oni bai ei fod yn ymwneud ag ymdrech anghymesur i wneud hynny.

6.5. Yr hawl i gyfyngu ar brosesu

Mae gan unigolion yr hawl i blocio y prosesu o'u gwybodaeth bersonol mewn rhai amgylchiadau. Gall y data barhau i gael ei storio ond mae'n rhaid i'r prosesu ddarfod.

Mae gan unigolion yr hawl i gyfyngu ar brosesu eu data personol lle:

- mae cywirdeb yr wybodaeth yn cael ei herio.

- mae'r prosesu yn anghyfreithlon (ond nid ydynt eisiau i'r data gael ei ddileu, ond yn hytrach ei gyfyngu); neu
- nid yw'r ysgol bellach angen yr wybodaeth bersonol ond mae angen y data i sefydlu, ymarfer neu amddiffyn hawliad cyfreithiol.

Mae gan unigolion hefyd yr hawl i gyfyngu ar brosesu gwybodaeth bersonol dros dro lle:

- maent yn credu ei bod yn gywir (ac mae'r ysgol yn gwirio a yw'n gywir).
- maent wedi gwrthod prosesu (ac mae'r ysgol yn ystyried a yw'r seiliau cyfreithlon yn bwysicach na'u buddiannau).

Bydd angen i'r ysgol hysbysu unrhyw drydydd parti sydd wedi derbyn y data o'r angen i gyfyngu ar brosesu, a hysbysu'r unigolyn o hunaniaeth y trydydd parti hyn. Bydd yr ysgol yn hysbysu unigolion pan fydd yn penderfynu codi cyfyngiad ar brosesu.

6.6. Yr hawl i gludadwyedd data

Mae gan unigolion yr hawl i ofyn am gopi o'u data personol mewn ffurf strwythuredig. Dylid prosesu ceisiadau o fewn un mis calendr, gan gymryd yn ganiataol nad oes baich gormodol ac nad yw'n cyfaddawdu preifatrwydd unigolion eraill. Gall unigolion hefyd ofyn i'w data personol gael ei drosglwyddo'n uniongyrchol i system arall. Ni ellir codi ffi am hyn. Dim ond y canlynol y mae'r hawl i gludadwyedd data yn berthnasol:

- data personol y mae unigolyn wedi ei ddarparu i'r ysgol fel y rheolydd data.
- lle mae'r prosesu yn seiliedig ar gydsyniad yr unigolyn neu ar gyfer perfformiad contract; ac
- pan brosesir gwybodaeth yn awtomataidd.

6.7. Yr hawl i wrthwynebu

Mae gan unigolion yr hawl i wrthwynebu prosesu eu gwybodaeth bersonol os yw'r ysgol yn:

- prosesu yn seiliedig ar fuddiannau cyfreithiol neu berfformiad tasg er buddiant y cyhoedd/ymarfer awdurdod swyddogol (gan gynnwys proffilio).
- marchnata uniongyrchol (gan gynnwys proffilio); a
- prosesu at ddibenion ymchwil ac ystadegau gwyddonol/hanesyddol.

Bydd yr ysgol yn cydymffurfio â'r cais oni bai bod rhesymau cadarn, cyfreithiol dros brosesu neu os oes angen sefydlu, ymarfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol.

6.8. Hawliau'n ymwneud â phroffilio a gwneud penderfyniadau awtomataidd

Mae deddfwriaeth diogelu data yn caniatáu:

- Gwneud penderfyniadau unigol awtomataidd- gwneud penderfyniad drwy ddulliau awtomataidd yn unig heb unrhyw gysylltiad gan fod dynol; a
- Proffilio- prosesu data personol yn awtomataidd i werthuso pethau penodol am unigolyn. Gall proffilio fod yn rhan o broses gwneud penderfyniadau.

Mae gan yr ysgol yr hawl i wneud penderfyniadau a phroffilio yn awtomataidd, ond ddim ond os:

- yw'r prosesu'n angenrheidiol ar gyfer mynd i mewn i gontract neu berfformio contract.
- yw'r prosesu wedi cael ei awdurdodi gan gyfraith aelod wladwriaeth sy'n cynnwys mesurau i ddiogelu hawliau gwrthrychau data; neu os
- yw'r prosesu'n seiliedig ar ganiatâd eglur.

Mae rheolau ychwanegol i amddiffyn unigolion os yw gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd yn cael effeithiau cyfreithiol neu'n effeithio arnynt yn yr un modd. Rhaid i'r ysgol sicrhau bod unigolion yn gallu:

- derbyn ymyrraeth ddynol.
- mynegi eu barn; a
- chael eglurhad o'r penderfyniad a'i herio.

Ni fydd yr ysgol yn gwneud penderfyniadau awtomataidd, gan gynnwys proffilio, yn seiliedig ar unrhyw wybodaeth bersonol sensitif unigolyn.

6.9. Hawliau eraill

Yn ogystal â'r hawliau uchod, mae gan unigolion hefyd yr hawl i:

- dynnu eu caniatâd dros brosesu yn ôl ar unrhyw amser.
- wneud cwyn i'r ICO.

7. Hawliau Plant

Mae gan blant yr un hawliau ag oedolion dros eu gwybodaeth bersonol, a gallent arfer yr hawliau hyn cyn belled â'u bod yn gymwys i wneud hynny. Lle na ystyrir plentyn yn gymwys i wneud hyn, bydd oedolyn â chyfrifoldeb rhienioli gan amlaf yn arfer hawliau diogelu data'r plentyn.

Yng Nghymru, nid oes oed penodol y caiff plentyn ei ystyried yn gyffredinol gymwys i ddarparu ei ganiatâd ei hun dros brosesu. Asesir cymhwysedd yn dibynnu ar y lefel o ddealltwriaeth sydd gan y plentyn. Os yw plentyn yn gymwys yna, yn union fel oedolyn, gall awdurdodi rhywun arall i weithredu ar ei ran. Gall hyn fod yn rhiant/y sawl â chyfrifoldeb rhienioli, oedolyn arall, neu gynrychiolydd megis gwasanaeth eiriolaeth plant, elusen neu gyfreithiwr.

Yn y DU, dim ond plant 13 oed a throsodd sy'n gallu darparu eu caniatâd ar gyfer *information society services (ISS)*. Mae ISS yn gyffredinol yn cynnwys gwefannau,

apiau, porwyr, marchnadfa ar-lein a gwasanaethau cynnwys ar-lein megis gwasanaethau a lawrlwytho cerddoriaeth, gemau a fideo ar alw.

Bydd yr ysgol yn sicrhau ei bod hi a'i phroseswyr data (cyn belled ag y bo'n ymarferol) yn cydymffurfio â'r Cod Plant (cod dylunio sy'n briodol i oedran) sy'n god ymarfer diogelu data ar gyfer darparu gwasanaethau ar-lein, megis apiau, gemau ar-lein, gwefannau ar y we a chyfryngau cymdeithasol y mae plant yn eu defnyddio.

8. Hawliau Rhieni

Gall unigolyn â chyfrifoldeb rhiant arfer hawliau ar ran plentyn os:

- yw'r plentyn yn eu hawdurdodi i wneud hynny.
- nid oes gan y plentyn ddigon o ddealltwriaeth i arfer yr hawliau ei hun; neu
- pan mae'n amlwg bod hyn ym muddiant gorau'r plentyn.

Person sydd â chyfrifoldeb rhiant yw rhywun sydd, yn ôl y gyfraith yng ngwlad breswyl y plentyn, â'r hawliau a'r cyfrifoldebau cyfreithiol dros blentyn a roddir fel arfer i rieni. Ni fydd hyn bob amser yn 'rhieni naturiol' plentyn a gall mwy nag un person naturiol neu gyfreithiol fod â chyfrifoldeb rhiant.

Rhaid i'r ysgol gadarnhau bod gan y person sy'n rhoi caniatâd, mewn gwirionedd, gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn. Mae gan yr ysgol hawl i ofyn am ddogfennau perthnasol i ddangos tystiolaeth o hyn yn ogystal â manylion y person sy'n gwneud unrhyw geisiadau ar ran y plentyn.

Yn ogystal, mae gan rieni eu hawl annibynnol eu hunain o dan *Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2004* i gael mynediad at gofnodion addysg swyddogol eu plant sy'n mynychu ysgol a gynhelir. Gall rhieni wneud ceisiadau ysgrifenedig i'r Pennaeth. Gall disgyblion hefyd wneud cais am eu cofnod addysg eu hunain. Rhaid i gais am gofnod addysgol gael ymateb gan yr ysgol o fewn 15 diwrnod ysgol. Gall yr ysgol atal gwybodaeth mewn rhai amgylchiadau, megis lle y gellir achosi niwed difrifol i iechyd corfforol neu feddyliol y disgybl neu unigolyn arall, neu os wneir cais am sgrïpt arholiad neu am farciau arholiad cyn iddynt gael eu cyhoeddi'n swyddogol. Gall yr ysgol godi ffi am wybodaeth a ddarperir o gofnod addysg yn dibynnu ar nifer y tudalennau a ddarperir.

9. Amodau dros Brosesu (Sail Gyfreithiol)

9.1. Erthygl 6

Mae'n rhaid prosesu data personol yn deg ac yn gyfreithlon yn unol â hawliau'r unigolyn. Bydd yr ysgol, fel y rheolydd data, ond yn prosesu gwybodaeth personol lle mae o leiaf un o amodau *Erthygl 6 yr UK GDPR* wedi cael ei fodloni:

- 6(1)(a)- **cysyniad yr unigolyn**- mae'r unigolyn wedi rhoi cysyniad clir i'r ysgol dros brosesu ei ddata personol at ddiben penodol.
- 6(1)(b)- **mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer contract**- mae'r prosesu yn angenrheidiol ar gyfer contract gyda'r unigolyn, neu oherwydd eu bod wedi gofyn i gymryd camau penodol cyn mynd i mewn i gontract.

- 6(1)(c)- **mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cydymffurfio efo dyletswydd cyfreithiol-** mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn i'r ysgol gydymffurfio â'r gyfraith (ddim yn cynnwys rhwymedigaethau cytundebol).
- 6(1)(d)- **mae prosesu yn angenrheidiol er buddiannau hanfodol yr unigolyn neu berson naturiol arall-** mae'r prosesu yn angenrheidiol i amddiffyn bywyd rhywun.
- 6(1)(e)- **mae prosesu'n angenrheidiol ac yn ymgymryd â thasg ym muddiannau'r cyhoedd neu'n ymarfer awdurdod swyddogol-** mae prosesu yn angenrheidiol i'r ysgol berfformio tasg er budd y cyhoedd neu ar gyfer swyddogaethau swyddogol yr ysgol, ac mae gan y dasg neu'r swyddogaeth sail glir mewn cyfraith.
- 6(1)(f)- **mae prosesu yn angenrheidiol at ddibenion buddiannau cyfreithiol y rheolydd data neu drydydd parti-** mae'r prosesu'n angenrheidiol er buddiannau cyfreithiol neu fuddiannau cyfreithiol trydydd parti oni bai bod rheswm da i amddiffyn data personol unigolyn sy'n bwysicach na'r buddiannau hynny (*nid yw hyn yn berthnasol ar gyfer awdurdodau cyhoeddus yn prosesu data i berfformio tasgau swyddogol*).

Bydd yr ysgol yn dogfennu ei phenderfyniad am ba sail gyfreithiol sy'n berthnasol o fewn ei *Chofnodion o Weithgareddau Prosesu (ROPA)*, i helpu arddangos cydymffurfiaid â'r egwyddorion diogelu data.

Bydd yr ysgol yn cynnwys gwybodaeth am ddibenion y prosesu a'r sail gyfreithiol drosto yn *Hysbysiad Preifatrwydd* yr ysgol.

9.2. Erthygl 9

Mae'n ofynnol dan y sail gyfreithiol dros brosesu **data categori arbennig** bod rhaid bodloni amod yn *Erthygl 9* o'r *UK GDPR* yn ogystal ag o leiaf un amod o *Erthygl 6* (*gwelir rhan 10 am ddiffiniad o ddata categori arbennig*). Bydd yr ysgol, fel y rheolydd data, ond yn prosesu gwybodaeth bersonol sensitif os oes amod yn *Erthygl 9* wedi ei fodloni:

- 9(2)(a)- **prosesu gyda chydysyniad eglur a phenodol yr unigolyn** - oni bai bod cyfraith yr UE neu Aelod-wladwriaeth yn gwahardd dibynnu ar gydsyniad.
- 9(2)(b)- **mae prosesu'n angenrheidiol o dan gyfraith cyflogaeth** - neu gyfraith nawdd cymdeithasol neu warchodaeth gymdeithasol, neu gytundeb ar y cyd.
- 9(2)(c)- **mae prosesu'n angenrheidiol er mwyn diogelu buddiannau hanfodol yr unigolyn** - gwrthrych data sy'n analluog yn gorfforol neu'n gyfreithiol i roi caniatâd.
- 9(2)(d)- **prosesu ar gyfer defnyddio grŵp categori arbennig (sefydliad dielw gyda nod gwleidyddol neu grefyddol neu undeb llafur).**
- 9(2)(e)- **mae prosesu'n ymwneud â gwybodaeth a gyhoeddir gan yr unigolyn.**

- 9(2)(f)- **mae prosesu'n angenrheidiol fel y gall y sefydliad amddiffyn hawliadau cyfreithiol** - neu lle mae'r llysoedd yn gweithredu yn rhinwedd eu swydd farnwrol.
- 9(2)(g)- **mae prosesu'n angenrheidiol am resymau buddiannau cyhoeddus sylweddol yn seiliedig ar y gyfraith** - sy'n gymesur â'r nod a ddilynir ac sy'n cynnwys mesurau diogelu priodol - mae hyn yn golygu y gall Aelod-wladwriaethau ymestyn yr amgylchiadau lle gellir prosesu data sensitif er budd y cyhoedd.
- 9(2)(h)- **mae angen prosesu er mwyn ymateb i anghenion lechyd Galwedigaethol a Gofal Cymdeithasol** - sy'n angenrheidiol at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol, ar gyfer asesu capasiti gwaith cyflogai, diagnosis meddygol, darparu iechyd neu ofal cymdeithasol neu drin neu reoli systemau a gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol ar sail cyfraith Aelod-wladwriaeth yr Undeb neu gontract gyda gweithiwr iechyd proffesiynol.
- 9(2)(i)- **mae prosesu'n angenrheidiol am resymau lechyd y Cyhoedd** - megis diogelu rhag bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd neu sicrhau safonau uchel o ofal iechyd a chynhyrchion meddyginiaethol neu ddyfeisiau meddygol.
- 9(2)(j)- **mae prosesu'n angenrheidiol at ddibenion archifo er budd y cyhoedd; neu at ddibenion ymchwil gwyddonol neu hanesyddol; neu at ddibenion ystadegol.**

Cynhwysir amodau categori arbennig pellach yn *Atodlen 1 o'r Ddeddf Diogelu Data 2018*.

Ni fydd yr ysgol yn prosesu gwybodaeth bersonol sensitif nes bod yr unigolyn wedi cael ei hysbysu'n briodol (drwy *Hysbysiad Preifatrwydd* neu fel arall) o natur y prosesu, at ba ddibenion, a'r sail gyfreithiol ar ei gyfer.

Pan fydd gwybodaeth am droseddau'n cael ei phrosesu, bydd yr ysgol yn nodi amod cyfreithlon ar gyfer prosesu'r wybodaeth honno a bydd yn dogfennu hyn. Bydd yr ysgol yn dogfennu ei phenderfyniad am ba sail gyfreithiol sy'n berthnasol o fewn ei *Chofnodion o Weithgareddau Prosesu (ROPA)*.

Bydd yr ysgol yn hysbysu'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion cyn prosesu unrhyw wybodaeth bersonol sensitif, fel y gall y Swyddog Diogelu Data Ysgolion asesu a yw'r prosesu yn cydymffurfio â'r criteria a nodir uchod.

10. Categorïau Arbennig o Ddata Personol

Cyfeirir weithiau at gategorïau arbennig o ddata personol fel gwybodaeth bersonol sensitif neu ddata personol sensitif. Ystyrir bod y rhain yn fwy sensitif a dim ond dan amgylchiadau mwy cyfyngedig y gellir eu prosesu.

Mae'r *UK GDPR* yn diffinio data categori arbennig fel:

- data personol sy'n datgelu hil neu darddiad ethnig.

- data personol sy'n datgelu barn wleidyddol.
- data personol sy'n datgelu credoau crefyddol neu athronyddol.
- data personol sy'n datgelu aelodaeth undeb llafur.
- data genetig.
- data biometrig (lle caiff ei ddefnyddio at ddibenion adnabod).
- data am iechyd.
- data ynglŷn â bywyd rhyw unigolyn.
- data ynglŷn â gogwydd rhywiol unigolyn.

Ymhellach i adran 9.2, mae'n rhaid i'r ysgol bennu'r amod dros brosesu data categori arbennig cyn dechrau prosesu'r wybodaeth a bydd yn dogfennu'r amod.

Ni fydd yr ysgol yn rhannu unrhyw wybodaeth feddygol am ddisgybl oni bai bod sail gyfreithiol dros wneud hynny. Gall yr ysgol roi arferion ar waith i rannu gwybodaeth feddygol gyda chaniatâd y disgybl/rhiant/y sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant os teimlir bod angen rhannu'r wybodaeth yn benodol er mwyn diogelu iechyd a lles y disgybl penodol (e.e., hysbysiad ar hysbysfwrdd mewn ystafell staff gyda mynediad cyfyngedig sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol a sensitif am ddisgybl ag alergedd bwyd difrifol). Dan amgylchiadau o'r fath, bydd yr ysgol yn ceisio cyngor gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion a bydd yn rhaid cydbwysu'r risgiau iechyd a lles a achosir, a'r angen i gadw gwybodaeth bersonol sensitif yn ddiogel, yn erbyn ei gilydd.

11. Caniatâd

Gall yr ysgol ddefnyddio caniatâd fel sail gyfreithiol ar gyfer prosesu os mai dyma'r sail gyfreithiol fwyaf priodol i'w defnyddio neu os nad yw sail gyfreithlon arall yn briodol.

Rhaid i ganiatâd fod yn gam cadarnhaol, felly mae'n rhaid i unigolion optio i mewn bob amser a chymryd camau cadarnhaol wrth roi eu caniatâd. Bydd angen caniatâd ar yr ysgol ar gyfer pob gweithgaredd prosesu ar wahân.

Bydd yr ysgol yn cadw cofnod o ganiatâd drwy gofrestr sy'n rhestru pawb sydd wedi rhoi caniatâd neu sydd heb roi caniatâd ac y mae gweithgarwch prosesu penodol ar ei gyfer. Bydd yr ysgol yn sicrhau bod hyn yn cael ei gadw'n gywir ac yn gyfoes a bod proses wedi'i sefydlu ar gyfer sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â'r penderfyniadau caniatâd a gofnodir.

Rhaid rhoi caniatâd yn rhydd, a rhaid iddo fod mor hawdd i'w dynnu'n ôl ag y mae i'w roi. Mae gan unigolion yr hawl i dynnu caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg a bydd yr ysgol yn diweddarau'r cofnod o ganiatâd i adlewyrchu unrhyw newidiadau.

Os nad yw'r ysgol wedi derbyn ffurflen ganiatâd neu os na ddarparwyd unrhyw gamau cadarnhaol eraill i roi caniatâd, bydd yr ysgol yn cymryd yn ganiataol na ddarperir caniatâd a bydd yn dogfennu ac yn gweithredu hyn.

Mae ffurflenni caniatâd ar gael ar dudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

12. Cywirdeb a Pherthnasedd

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod unrhyw wybodaeth bersonol a brosesir yn gywir, yn gyfredol, yn berthnasol, yn ddigonol ac nad yw'n ormodol (yn gymesur), a'i bod yn cael ei phrosesu at y diben y cafodd ei derbyn. Ni fydd data personol a geir at un diben yn cael ei brosesu at unrhyw ddiben sydd ddim yn gysylltiedig oni bai bod yr unigolyn dan sylw wedi cytuno i hyn neu y byddai fel arall yn rhesymol i ddisgwyl hyn.

Bydd yr ysgol yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i unigolion gymryd camau rhesymol i sicrhau bod data personol sydd gan yr ysgol amdanynt yn gywir a'i fod wedi'i ddiweddarau yn ôl y gofyn. Mae hyn wedi'i gynnwys yn *Hysbysiad Preifatrwydd* yr ysgol a bydd yr ysgol yn cadarnhau'n rheolaidd bod yr wybodaeth a gadwir yn gywir, yn enwedig cyfeiriadau a manylion cyswllt. Bydd yr ysgol yn diweddarau'r wybodaeth cyn gynted â phosibl mewn cofnodion papur ac electronig.

13. Cadw Gwybodaeth Bersonol

Bydd gwybodaeth bersonol (a gwybodaeth categori arbennig) yn cael ei chadw'n ddiogel yn unol â'r *Cyfnodau Cadw Cofnodion Ysgolion* sydd ar gael ar dudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

Ni ddylid cadw gwybodaeth bersonol (a gwybodaeth categori arbennig) am fwy o amser na'r angen. Bydd yr amser y dylid cadw data yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gan gynnwys y rhesymau pam y cafwyd yr wybodaeth bersonol. Dylai'r ysgol ddilyn y *Cyfnodau Cadw Cofnodion Ysgolion* sy'n nodi'r cyfnod cadw perthnasol ar gyfer gwahanol fathau o wybodaeth a dogfennau personol. Os oes unrhyw ansicrwydd, dylai'r ysgol ymgynghori â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion am arweiniad.

Mae angen i'r ysgol sicrhau nad yw gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw am fwy o amser na'r angen ond hefyd nad yw gwybodaeth bersonol yn cael ei gwaredu cyn diwedd y cyfnod cadw.

14. Cofnodi Data

Bydd yr ysgol yn cadw cofnodion yn y fath fodd fel y gall yr unigolyn dan sylw eu harolygu. Gall y llysoedd neu unrhyw swyddog cyfreithiol hefyd archwilio'r wybodaeth rywbryd yn y dyfodol. Felly, dylai fod yn gywir, yn ddiudedd, yn ddiamwys ac yn amlwg ddehongladwy/darllenadwy. Pan geir gwybodaeth o ffynhonnell allanol, dylid cofnodi manylion y ffynhonnell a'r dyddiad a gafwyd.

15. Cofnodion o Weithgareddau Prosesu (ROPA)

Bydd yr ysgol yn cadw cofnodion ysgrifenedig o weithgareddau prosesu yn unol â gofynion deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys:

- enw a manylion yr ysgol; manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data Ysgolion ac unrhyw reolwyr data eraill ar y cyd os yw'n berthnasol.
- dibenion y prosesu.
- disgrifiad o'r categorïau o unigolion a chategorïau o ddata personol a brosesir.
- categorïau o dderbynwyr data personol.
- lle y bo'n bosibl, y cyfnodau cadw ar gyfer y gwahanol gategorïau o ddata personol.
- lle y bo'n bosibl, disgrifiad cyffredinol o fesurau diogelwch technegol a sefydliadol.

Bydd yr ysgol hefyd, fel rhan o'r cofnod o weithgareddau prosesu, yn dogfennu neu'n darparu dolen gyswllt i ddogfennaeth ar:

- wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer *Hysbysiadau Preifatrwydd*.
- cofnodion o ganiatâd.
- contractau prosesydd-rheolwyr.
- lleoliad data personol.
- Aseidiadau Effaith Diogelu Data (DPIAau).
- digwyddiadau tor-rheolau data personol.
- data categori arbennig neu gollfarn droseddol a data trosedd.

Os yw'r ysgol yn prosesu data categori arbennig neu ddata ar gollfarnau troseddol a throseddau, bydd cofnodion ysgrifenedig yn cael eu cadw o:

- at ba ddiben(ion) perthnasol y mae'r prosesu'n digwydd, gan gynnwys (lle bo angen) pam ei fod yn angenrheidiol at y diben hwnnw.
- y sail gyfreithlon dros brosesu; ac
- a yw'r ysgol yn cadw ac yn dileu'r wybodaeth bersonol yn unol â'r ddogfen bolisi ac, os nad yw, y rhesymau dros beidio â dilyn y polisi.

Bydd yr ysgol yn cynnal adolygiadau rheolaidd o'r wybodaeth bersonol sy'n cael ei phrosesu a'r dogfennau diweddaraf yn unol â hynny. Gall hyn gynnwys:

- cynnal archwiliadau gwybodaeth i ganfod pa wybodaeth bersonol sydd gan yr ysgol.
- creu mapiau llif data ar gyfer gwahanol brosesau gwybodaeth.
- dosbarthu holiaduron a siarad â holl staff yr ysgol i gael darlun cyflawn o weithgareddau prosesu'r ysgol; ac
- adolygu polisiau, gweithdrefnau, contractau a chytundebau i fynd i'r afael â meysydd fel cadw, diogelwch a rhannu data.

Bydd yr ysgol yn dogfennu gweithgareddau prosesu ar ffurf electronig fel y gellir ychwanegu, dileu a diwygio gwybodaeth yn hawdd fel bod y cofnod o weithgareddau prosesu yn cael ei gadw'n gywir ac yn gyfoes.

Mae templed ar gyfer *Cofnodion o Weithgareddau Prosesu* a chanllawiau cysylltiedig ar gael ar dudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu. Mae'r ysgol fel rheolydd data yn **gorfod** cadw *Cofnodion o Weithgareddau Prosesu*.

Bydd yr ysgol yn cydymffurfio â'r *Polisi Rheoli Cofnodion Ysgolion*.

16. Datgelu a Rhannu Gwybodaeth

Nid yw cyfraith diogelu data yn atal rhannu gwybodaeth, ac nid yw'n rhwystr, ond yn hytrach mae'n darparu fframwaith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu'n gyfreithlon ac mewn ffordd briodol a diogel. Fodd bynnag, mae'n drosedd cael neu ddatgelu gwybodaeth am unigolyn yn fwriadol neu'n ddi-hid heb achos cyfreithlon. Dylid ond rhoi data perthnasol, cyfrinachol i:

- aelodau eraill o staff yn ôl yr angen.
- rhieni perthnasol/y sawl sydd â chyfrifoldeb riant.
- sefydliadau eraill os oes angen er budd y cyhoedd e.e., atal troseddu.
- awdurdodau eraill fel yr Awdurdod Addysg Lleol ac ysgolion y gall disgybl symud iddynt, lle mae gofynion cyfreithiol.
- sefydliadau sy'n cydweithio â'r ysgol (fel Gwasanaethau Cymdeithasol (*gwelir adran 16.2*)) neu sy'n rhan o Brotocol Rhannu Gwybodaeth (ISP).

Wrth rannu gwybodaeth bersonol, bydd yr ysgol yn sicrhau:

- ei bod â hawl i rannu'r wybodaeth bersonol.
- dim ond gyda'r bobl *angenrheidiol* y caiff yr wybodaeth ei rhannu.
- bod diogelwch digonol (gan ystyried natur yr wybodaeth) ar waith i ddiogelu'r wybodaeth ac i sicrhau ei bod yn cael ei rhannu'n ddiogel.
- bydd yn rhoi amlinelliad mewn *Hysbysiad Preifatrwydd* o bwy sy'n derbyn gwybodaeth bersonol gan yr ysgol.
- bod yr wybodaeth yn gywir ac yn gyfoes.
- bod yr wybodaeth yn cael ei rhannu'n amserol.

Bydd aelodau unigol o staff ond yn cael gafael ar wybodaeth y mae ganddynt yr awdurdod i'w defnyddio, a dim ond at ddibenion awdurdodedig, a byddant ond yn caniatáu i staff eraill yr ysgol gael gafael ar wybodaeth bersonol os oes ganddynt yr awdurdodiad priodol.

Rhaid i benderfyniadau ynghylch a ddylid rhannu gwybodaeth gael eu gwneud fesul achos. Bydd yr ysgol yn seilio ei phenderfyniadau ynghylch rhannu gwybodaeth ar ystyriaethau o ddiogelwch a lles yr unigolyn ac eraill a allai gael eu heffeithio. Ni fydd yr ysgol yn datgelu unrhyw beth ar gofnod disgybl a fyddai'n debygol o achosi niwed difrifol i iechyd corfforol neu feddyliol y disgybl neu unrhyw un arall.

Ni ddylid datgelu gwybodaeth bersonol heb sefydlu pwy yw'r derbynydd. Ni ddylid darparu gwybodaeth i bartïon eraill, hyd yn oed os ydynt yn gysylltiedig (e.e., yn achos rhieni sydd wedi'u gwahanu, mae'n bwysig nad yw gwybodaeth am un parti yn cael ei rhoi i'r parti arall nad oes ganddo hawl iddi). Bydd yr ysgol yn cadw cofnod o'r penderfyniad i rannu gwybodaeth ai peidio a bydd yn egluro'r rhesymau y tu ôl i'r penderfyniad. Os yw'r ysgol wedi rhannu gwybodaeth, cedwir cofnod o ba wybodaeth bersonol sydd wedi'i rhannu, gyda phwy y cafodd ei rhannu ac at ba ddiben.

Bydd unrhyw ddata personol a gaiff ei drosglwyddo i drydydd parti i'w brosesu (sef cwmni allanol) yn dod o dan Gytundeb Prosesu Data (DPA). Mae angen Cytundeb Prosesu Data pan fydd yr ysgol fel y Rheolwr Data yn gofyn i Brosesydd Data brosesu data ar ran yr ysgol.

Bydd yr ysgol yn ymuno â Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI). Offeryn yw hwn i helpu i rannu gwybodaeth bersonol yn effeithiol ac yn gyfreithlon ar sail amlasiantaethol yng Nghymru.

Os yw'r ysgol yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd ag asiantaeth neu sefydliad, efallai y bydd angen Protocol Rhannu Gwybodaeth (ISP) neu Gytundeb Datgelu Data (DDA) yn dibynnu ar y math o rannu gwybodaeth.

Gall yr ysgol hefyd rannu data personol gyda'r gwasanaethau brys ac awdurdodau lleol i'w helpu i ymateb i sefyllfa frys sy'n effeithio ar unrhyw ddisgyblion neu aelodau o staff.

Dylai'r ysgol gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion i gael cyngor os oes gan yr ysgol unrhyw amheuaeth a ddylid rhannu gwybodaeth bersonol ai peidio gydag asiantaethau a thrydydd partïon sy'n gofyn am wybodaeth.

16.1. Cais gan Drydydd Parti am Wybodaeth Bersonol Unigolyn

Gall yr ysgol dderbyn ceisiadau gan asiantaethau neu drydydd partïon eraill fel yr Heddlu, yr Adran Gwaith a Phensiynau, cyfreithwyr ac ati i gael mynediad corfforol at neu dderbyn copi o'r wybodaeth bersonol sy'n ymwneud ag unigolyn.

Bydd yr ysgol yn rhannu data personol â gorfodaeth y gyfraith a chyrrff llywodraethu lle mae'n ofynnol yn gyfreithiol iddi wneud hynny, gan gynnwys ar gyfer:

- atal neu ganfod trosedd a/neu dwyll.
- dal neu erlyn troseddwr.
- asesu neu gasglu treth sy'n ddyledus i HMRC.
- yn gysylltiedig ag achosion cyfreithiol.
- lle mae'n ofynnol i'r datgeliad fodloni rhwymedigaethau diogelu.
- dibenion ymchwil ac ystadegol, cyn belled â bod data personol yn ddigon dienw neu fod caniatâd wedi'i ddarparu.

Bydd yr ysgol yn dilyn y *Weithdrefn ar gyfer Rhannu Gwybodaeth gydag Awdurdodau'r Heddlu yn y Deyrnas Unedig* wrth ddelio â cheisiadau gan yr Heddlu.

16.2. Amddiffyn Plant ac Oedolion Bregus

Nid yw'r UK GDPR na Deddf Diogelu Data 2018 yn atal, nac yn cyfyngu ar rannu gwybodaeth at ddibenion cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.

Gellir rhannu gwybodaeth bersonol berthnasol yn gyfreithlon os yw am gadw plentyn neu unigolyn sydd mewn perygl yn ddiogel rhag esgeulustod neu niwed corfforol, emosiynol neu feddyliol, neu os yw'n diogelu ei les corfforol, meddyliol neu emosiynol. Yr ystyriaeth bwysicaf yw a yw rhannu gwybodaeth yn debygol o gefnogi diogelu ac amddiffyn plentyn.

Ni ddylai ofnau ynghylch rhannu gwybodaeth fod yn rhwystr i ddiogelu a hyrwyddo lles plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

Bydd angen i'r ysgol ddilyn polisïau a gweithdrefnau diogelu yn ddi-oed o ran pa wybodaeth bersonol y gellir ei rhannu â'r awdurdodau perthnasol megis Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, Gwasanaethau Oedolion neu'r Heddlu os oes unrhyw bryderon y gallai plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed fod mewn perygl o niwed difrifol neu sylweddol.

Dan rhai amgylchiadau, rhaid diystyru'r ddyletswydd o ddiogelu cyfrinachedd gwybodaeth bersonol, pan fo dyletswydd i amddiffyn plant neu oedolion sy'n agored i niwed sydd mewn perygl o niwed difrifol. Dan amgylchiadau o'r fath, bydd yr ysgol yn gofyn am gyngor gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion. Bydd yn rhaid cydbwysu'r risg a achosir a hawl yr unigolyn i breifatrwydd yn erbyn ei gilydd.

Os nad ydych yn siŵr pa wybodaeth y gellir ei rhannu, trafodwch gyda'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion.

I gael rhagor o wybodaeth am rannu gwybodaeth i ddiogelu plant, cyfeiriwch at ddogfen *Llywodraeth Cymru - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Rhannu gwybodaeth i ddiogelu plant, Canllaw anstatudol i ymarferwyr*, Gorffennaf 2019 sydd ar gael ar dudalen Diogelu Data ar Meicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

17. Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

Mae *Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000* yn creu hawl cyffredinol i gael mynediad at bob math o wybodaeth gofnodedig a gadwir gan awdurdodau cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys cofnodion electronig a phapur, ffotograffau a recordiadau.

Mae gan y cyhoedd yr hawl i gael gwybod pan fydd corff cyhoeddus yn cadw gwybodaeth benodol, a'r hawl i gael yr wybodaeth honno wedi'i chyfathrebu iddynt.

Mae cyfraith yn rhoi hawl i unigolion gael mynediad at wybodaeth a gadwir yn barod. Nid oes unrhyw rwymedigaeth i'r ysgol greu gwybodaeth na darparu esboniadau neu gyngor.

Mae gan yr ysgol 20 diwrnod gwaith i ymateb i gais. I gais fod yn ddilys o dan y *Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth*, mae'n rhaid iddo fod yn ysgrifenedig (noder fod gan awdurdodau cyhoeddus hefyd ddyletswyddau dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb – efallai y bydd angen darparu cefnogaeth ychwanegol neu addasiadau rhesymol i ganiatáu i unigolyn wneud cais lle bo angen).

Mae'r *Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth* yn cynnwys nifer o eithriadau sy'n caniatáu i'r ysgol atal gwybodaeth oddi wrth rywun sy'n gwneud cais. Mae rhai eithriadau'n ymwneud â math penodol o wybodaeth ac mae eithriadau eraill yn seiliedig ar y niwed a fyddai'n codi neu a fyddai'n debygol o godi o ddatgelu. Mae hefyd eithriad ar gyfer data personol os byddai ei ryddhau'n gyferbyniol i'r *UK GDPR* neu'r *Ddeddf Diogelu Data 2018*.

Gall yr ysgol wrthod cais cyfan dan yr amgylchiadau canlynol:

- byddai'n costio gormod neu'n cymryd gormod o amser staff i ddelio â'r cais.
- mae'r cais yn flinderus.
- mae'r cais yn ailadrodd cais blaenorol gan yr un person.

Os yw'r ysgol yn gwrthod holl neu unrhyw ran o gais, mae'n rhaid i'r ysgol anfon hysbysiad gwrthod ysgrifenedig at y sawl sy'n gwneud cais.

Gall y Swyddog Diogelu Data Ysgolion ddarparu cyngor ac arweiniad i'r ysgol mewn perthynas â delio â cheisiadau rhyddid gwybodaeth.

Mae adnoddau ar gael ynghylch delio â cheisiadau rhyddid gwybodaeth ar dudalen Diogelu Data ar meicrowefan y Gwasanaeth Dysgu gan gynnwys *Canllaw Mynediad at Wybodaeth a Siart Mynediad at Wybodaeth*.

17.1. Cynllun Cyhoeddi

Mae hefyd yn ofynnol i'r ysgol gyhoeddi gwybodaeth benodol yn rhagweithiol ynglŷn â'i gweithgareddau. Mae'r *Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth* yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus gael cynllun cyhoeddi, wedi'i gymeradwyo gan yr ICO, ac i gyhoeddi gwybodaeth a nodir yn y cynllun. Dylunnir y ddeddf i gynyddu tryloywder a dylai aelodau o'r cyhoedd allu cael mynediad rheolaidd at wybodaeth sydd o ddiddordeb y cyhoedd ac sy'n ddiogel i'w datgelu.

Mae'n rhaid i'r cynllun amlinellu ymrwymiad yr ysgol i wneud dosbarthiadau penodol o wybodaeth ar gael yn rheolaidd, megis polisïau a gweithdrefnau, cofnodion cyfarfodydd, adroddiadau blynyddol a gwybodaeth ariannol.

Nid yw rhai mathau o wybodaeth yn disgyn o dan y cynllun, gan gynnwys gwybodaeth sydd mewn ffurf drafft; gwybodaeth sydd wedi'i harchifo neu sy'n anodd cael mynediad ati; gwybodaeth sydd wedi'i heithrio rhag ei datgelu dan y ddeddf ac mae rhan o'r ddogfen wedi'i heithrio rhag ei datgelu, ac ni fyddai'n ymarferol i gyhoeddi'r wybodaeth gyda darnau wedi'u duo (wedi'i golygu).

Dylid gwneud cynllun cyhoeddi yr ysgol ar gael drwy wefan yr ysgol. Os nad oes gan yr ysgol wefan, mae'n rhaid i'r ysgol restru'r wybodaeth yn arweiniad yr ysgol ar wybodaeth a rhoi manylion cyswllt fel y gall bobl wneud cais i'w gweld.

Bydd yr ysgol yn cynnal ei chynllun cyhoeddiad ac yn parhau i gyhoeddi'r wybodaeth y mae'n ei rhestru. Mae gan yr ysgol broses ar waith i:

- adolygu pa wybodaeth y mae'r ysgol yn ei chyhoeddi;
- sicrhau bod yr ysgol yn gwneud gwybodaeth sydd wedi ei chreu o'r newydd sy'n disgyn o fewn cwmpas y cynllun ar gael yn brydlon; ac
- amnewid neu ddiweddarau gwybodaeth sydd wedi'i disodli.

Mae templed cynllun cyhoeddi ar gael ar dudalen Diogelu Data ar meicrowefan y Gwasanaeth Dysgu. Gall y Swyddog Diogelu Data ddarparu cyngor ac arweiniad i'r ysgol ynglŷn â beth i'w gynnwys yn y cynllun cyhoeddi.

18. Digwyddiadau Diogelwch Data

Digwyddiad diogelwch data yw toriad diogelwch sy'n arwain at ddinistrio, colli, addasu, datgelu neu fynediad anawdurdodedig at ddata personol a drosglwyddir, a storir neu a brosesir mewn unrhyw ddull arall gan yr ysgol, yn ddamweiniol neu'n anghyfreithlon. Golyga hyn fod yr wybodaeth bersonol wedi cael ei chyfaddawdu, ei difrodi, ei cholli neu ei dwyn.

Gall digwyddiad diogelwch data fod ar sawl ffurf wahanol, mae enghreifftiau'n cynnwys:

- colli neu ddwyn data neu offer y mae gwybodaeth bersonol yn cael ei storio arno e.e., gwybodaeth neu offer TG (gliniaduron, tabledi, ffonau symudol, dyfeisiau sy'n cynnwys data personol fel cofion bach).
- gwall dynol fel data'n cael ei rannu gyda derbynnydd anfwriadol drwy e-bostio gwybodaeth i gyfeiriad e-bost anghywir; gwybodaeth bersonol yn cael ei gadael mewn lleoliad ansefydlog; uwchlwytho gwybodaeth bersonol i wefan neu gyfrif cyfryngau cymdeithasol.
- mynediad heb awdurdod at wybodaeth bersonol neu gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio naill ai gan aelod o staff neu drydydd parti gan gynnwys rheolaethau mynediad amhriodol, gan arwain at gyfrifon defnyddwyr yn cael eu cyfaddawdu, sydd yna'n arwain at fynediad heb awdurdod at ddata.
- methiant offer neu systemau TG (gan gynnwys caledwedd a meddalwedd) sy'n arwain at golli data neu anargaeledd data a gadwir arno.

- difrodi, dinistrio neu golli data personol; newid neu ddileu data personol yn ddamweiniol neu'n anghyfreithlon (e.e., oherwydd methiant cyfarpar neu wall dynol).
- colli data neu offer drwy ddigwyddiadau naturiol nas rhagwelwyd fel tân neu lifogydd.
- ymosodiadau bwriadol ar systemau TG a seiberfwlio fel hacio, firysau, sgamiau “*phishing*” neu haint drwgwedd.
- lle ceir gwybodaeth drwy dwyllo aelod o staff.
- torri mewn i fynediad/diogelwch adeiladau corfforol.
- newidiadau anarferol neu heb reolaeth i'r system.
- storio a/neu waredu offer TG yn amhriodol.

Bydd yr ysgol yn cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion i roi gwybod am yr **holl** ddigwyddiadau diogelwch data/'digwyddiadau agos' **cyn gynted â phosibl**. Bydd yr ysgol yn ymchwilio i unrhyw achosion o dorri rheolau o'r fath a bydd yn cwblhau'r adroddiad gofynnol ar ddigwyddiadau diogelwch data heb oedi diangen. Mae templed adroddiad digwyddiad diogelwch data ar gyfer ysgolion a chanllawiau cysylltiedig ar gael ar dudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

Bydd angen i'r ysgol gymryd unrhyw gamau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r digwyddiad diogelwch data a'i liniaru a bydd yn cymryd unrhyw gamau adferol os bydd angen. Mi fydd angen sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei chasglu/dychwelyd ac ei dinistrio yn syth fel cam cyntaf pan mae'r ysgol yn dod yn ymwybodol o'r digwyddiad. Bydd yr ysgol hefyd yn adolygu a oes angen iddi wneud unrhyw newidiadau gofynnol i brosesau ac/neu arferion cyfredol er mwyn lleihau'r risg o ddigwyddiad tebyg yn digwydd eto.

Rhaid i'r ysgol gadw cofnod canolog o'r holl ddigwyddiadau diogelwch data a fydd yn cofrestru'r holl fethiannau cydymffurfio. Bydd ffigurau ynghylch nifer y digwyddiadau diogelwch data yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad sicrwydd llywodraethu gwybodaeth blynyddol i gorff llywodraethu'r ysgol. Bydd y ffigurau hefyd yn cael eu cynnwys yn adroddiad cryno blynyddol lefel uchel y Swyddog Diogelu Data Ysgolion ar bob ysgol a gyflwynir i Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth Dysgu a Phwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Sir Ynys Môn.

Os yw'r digwyddiad diogelwch data yn debygol o arwain at risg i hawliau a rhyddid unigolion, mae'n ofynnol i'r ysgol roi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am y digwyddiad diogelwch data, **o fewn 72 awr** o ddod yn ymwybodol ohono. **Y Swyddog Diogelu Data Ysgolion sy'n penderfynu a oes angen rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am y toriad ai peidio.**

Bydd angen i'r ysgol hefyd hysbysu'r unigolion yr effeithir arnynt heb oedi diangen os yw digwyddiad diogelwch data yn debygol o arwain at risg *uchel* i'w hawliau a'u rhyddid.

Mae angen i'r holl staff fod yn agored am unrhyw ddigwyddiadau fel bod yr ysgol yn sicrhau ei bod yn gweithredu'n gyfrifol, yn cefnogi aelodau o staff ac yn delio â'r digwyddiad cyn gynted â phosib ac mor effeithlon â phosib. Gall peidio â rhoi gwybod am ddigwyddiad y dylid bod wedi'i adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth arwain at ganlyniadau i'r ysgol ac i'r aelod unigol o staff.

Bydd yr ysgol yn cydymffurfio â'r *Polisi Tor-rheolau Data Ysgolion*.

19. Rhannu Pryderon Diogelu Data

Dylai staff yn yr ysgol hysbysu'r Pennaeth/person sy'n gyfrifol am ddiogelu data o fewn yr ysgol, ac os yw'n briodol, y Swyddog Diogelu Data Ysgolion, os oes ganddynt unrhyw bryderon neu os ydynt yn amau bod un o'r canlynol wedi digwydd (neu'n digwydd neu'n debygol o ddigwydd):

- prosesu data personol heb sail gyfreithlon ar gyfer ei brosesu neu, yn achos gwybodaeth bersonol sensitif, heb fodloni un o'r amodau cyfreithiol yn *Erthygl 9*.
- mynediad at wybodaeth bersonol heb yr awdurdodiad priodol.
- gwybodaeth bersonol nad yw'n cael ei chadw na'i dileu/ei dinistrio'n ddiogel.
- cael gwared ar wybodaeth bersonol, neu ddyfeisiau sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol (neu y gellir eu defnyddio i gael mynediad ati), o safle'r ysgol heb i fesurau diogelwch priodol fod ar waith.
- unrhyw achos arall o dorri'r polisi hwn neu unrhyw un o'r egwyddorion diogelu data a nodir yn adran 5.

20. Rhestr o Asedau Gwybodaeth

Bydd angen i'r Pennaeth sicrhau bod *Rhestr o Asedau Gwybodaeth* ar waith a'i bod yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Mae'r *Rhestr o Asedau Gwybodaeth* yn cynnwys gwybodaeth am ba ddata a gedwir, lle caiff ei storio, sut y caiff ei ddefnyddio, pwy sy'n gyfrifol ac unrhyw reoliadau neu amserlenni cadw pellach a allai fod yn berthnasol.

Mae templed *Rhestr o Asedau Gwybodaeth a Canllaw Rhestr Asedau Gwybodaeth* ar gael ar dudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

21. Hysbysiad Preifatrwydd

Mae gan yr ysgol Hysbysiad Preifatrwydd ar waith sy'n rhoi gwybod i unigolion am yr wybodaeth bersonol sy'n cael ei chasglu ac sy'n cael ei chadw amdanynt a sut y gallent ddisgwyl i'w gwybodaeth bersonol gael ei defnyddio ac at ba ddibenion.

Rhaid i'r Hysbysiad Preifatrwydd fod yn benodol i'r gweithgaredd sy'n gofyn am wybodaeth bersonol. Rhaid i hyn ddigwydd ar yr adeg y mae'r wybodaeth yn dechrau cael ei chasglu ar unigolyn am y tro cyntaf.

Pryd bynnag y cesglir gwybodaeth am unigolion, bydd yr ysgol yn darparu'r wybodaeth ganlynol fel bod yr ysgol yn dryloyw ac yn darparu gwybodaeth hygyrch am sut y defnyddir data personol:

- manylion adnabod a chyswllt yr ysgol fel y rheolwr data.
- y diben y mae'r wybodaeth yn cael ei chasglu ar ei gyfer.
- y sail gyfreithlon ar gyfer casglu'r wybodaeth.
- unrhyw ddibenion eraill y gellir ei ddefnyddio ar eu cyfer.
- sut y cesglir yr wybodaeth.
- gyda phwy y bydd neu y gellir rhannu'r wybodaeth (unrhyw drydydd partion).
- pa mor hir y cedwir yr wybodaeth.
- manylion am hawliau unigolion (e.e., yr hawliau mynediad at ddata personol sy'n cael ei gadw gan yr ysgol).
- manylion am y Swyddog Diogelu Data Ysgolion.

Cymerir camau priodol i ddarparu gwybodaeth yn yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ffurf gryno, dryloyw, ddealladwy a hygyrch, gan ddefnyddio iaith glir a phlaen. Os cesglir gwybodaeth yn uniongyrchol gan blentyn, rhaid i'r Hysbysiad Preifatrwydd fod yn briodol i'w oedran.

Bydd yr Hysbysiad Preifatrwydd yn cael ei rannu drwy wefan yr ysgol; cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, a byddant ar gael ar ffurf copi caled ar gais.

Bydd crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd yn cael ei gynnwys ym mhob dogfen sy'n casglu gwybodaeth personol ac o fewn ffurflenni caniatâd.

Mae templedi Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer rhieni a disgyblion (cyffredinol); fersiwn plant a phobl ifanc a hefyd fersiwn ar gyfer gweithlu'r ysgol, ar gael ar dudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

22. Aseidiadau Effaith Diogelu Data (DPIAau)

Lle mae prosesu'n debygol o arwain at risg uchel i hawliau a rhyddid unigolyn (e.e., lle mae'r ysgol yn bwriadu defnyddio math newydd o dechnoleg), cyn dechrau'r prosesu, bydd DPIA yn cael ei wneud i asesu'r canlynol:

- a yw'r prosesu'n angenrheidiol ac yn gymesur mewn perthynas â'i ddiben.
- y risgiau i unigolion.
- pa fesurau y gellir eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r risgiau hynny a diogelu gwybodaeth personol.

Cyn cyflwyno unrhyw fath newydd o dechnoleg, dylai'r ysgol felly gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion er mwyn gallu ymgymryd â DPIA.

Yn ystod unrhyw DPIA, bydd yr ysgol yn ceisio barn unrhyw grŵp cynrychioliadol ac unrhyw randdeiliaid perthnasol eraill (lle bo hynny'n berthnasol).

Mae DPIAau yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer gweithgareddau prosesu sy'n debygol o fod yn risg uchel. Dylid ystyried DPIA fel proses barhaus gydag adolygiadau rheolaidd yn seiliedig ar lefel y risg a natur y gweithgaredd prosesu.

Mae polisi a thempled *Asesiad Effaith Diogelu Data Ysgolion (DPIA)* yn ogystal â *Matrics Risg Diogelu Data Ysgolion* a thempled *Rhestr Risg Diogelu Data Ysgolion* ar gael ar dudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

23. Diogelwch Gwybodaeth

23.1. Ysgol

Bydd yr ysgol yn defnyddio mesurau technegol a threfniadol priodol i gadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel, ac yn arbennig i ddiogelu rhag prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon ac yn erbyn colled, dinistr neu ddifrod damweiniol.

Bydd yr ysgol yn sicrhau:

- lle y bo'n bosibl, bod gwybodaeth bersonol yn cael ei ffugenwi neu ei hamgryptio.
- cyfrinachedd, uniondeb, argaeledd a gwydnwch parhaus mewn systemau a gwasanaethau prosesu.
- os bydd digwyddiad corfforol neu dechnegol, y gellir adfer argaeledd a mynediad at wybodaeth bersonol mewn modd amserol.
- bod proses ar waith i brofi, asesu a gwerthuso effeithiolrwydd mesurau technegol a sefydliadol yn rheolaidd er mwyn sicrhau diogelwch y prosesu.
- bod manau diogel priodol ar gael yn yr ysgol i gynnal sgysiau preifat rhwng staff, disgyblion, rhieni/y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant ac ymwelwyr e.e., derbynfeydd sy'n addas i rannu gwybodaeth bersonol gyda dim ond y rhai y mae angen iddynt fod yn rhan o'r sgwrs heb y risg y bydd eraill yn clywed.
- bod yn rhaid nodi'r holl ddata categorïau personol ac arbennig sy'n cael ei storio ar systemau TG yr ysgol gan ddefnyddio termau dosbarthu data (SWYDDOGOL neu SWYDDOGOL-SENSITIF).

Bydd yr ysgol yn cydymffurfio gyda'r *Polisi Diogelwch Data Ysgolion*.

23.2. Sefydliadau Allanol

Lle mae'r ysgol yn defnyddio sefydliadau allanol i brosesu gwybodaeth bersonol ar ei rhan, mae angen gweithredu trefniadau diogelwch ychwanegol mewn contractau a chytundebau gyda'r sefydliadau hynny i ddiogelu gwybodaeth bersonol. **Mae'n rhaid i'r ysgol gael contract neu gytundeb swyddogol mewn lle âg unrhyw broseswyr data sydd yn prosesu data ar ran yr ysgol.** Rhaid i gontractau a chytundebau â sefydliadau allanol sicrhau:

- dim ond ar gyfarwyddiadau ysgrifenedig yr ysgol y gall y sefydliad weithredu.

- mae'r rhai sy'n prosesu'r data yn destun dyletswydd hyder.
- cymerir camau priodol i sicrhau diogelwch prosesu.
- dim ond gyda chydsyniad yr ysgol ymlaen llaw ac o dan gontract ysgrifenedig y mae isgontractwyr yn ymwneud â hwy.
- bydd y sefydliad yn cynorthwyo'r ysgol i ddarparu mynediad i wrthrychau a chaniatáu i unigolion arfer eu hawliau mewn perthynas â diogelu data.
- bydd y sefydliad yn cynorthwyo'r ysgol i gyflawni ei rhwymedigaethau mewn perthynas â diogelwch prosesu, hysbysu am ddigwyddiadau diogelwch data ac Aseidiadau Effaith Diogelu Data (DPIAau).
- bydd y sefydliad yn dileu neu'n dychwelyd yr holl wybodaeth bersonol i'r ysgol yn ôl y gofyn ar ddiwedd y contract; a
- bydd y sefydliad yn cyflwyno archwiliadau ac arolygiadau; darparu pa wybodaeth bynnag sydd ei hangen ar yr ysgol i sicrhau ei bod yn cyflawni ei rhwymedigaethau diogelu data, a dweud wrth yr ysgol ar unwaith os gofynnir iddi wneud rhywbeth sy'n dor-cyfraith diogelu data.

Cyn i unrhyw gytundeb newydd sy'n ymwneud â phrosesu gwybodaeth bersonol gan sefydliad allanol gael ei ymrwymo, neu cyn i gytundeb presennol gael ei newid, rhaid i'r ysgol ofyn i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion gymeradwyo ei thelerau. Bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn sicrhau bod cytundebau sydd wedi'u diffinio'n glir ar waith rhwng yr ysgol a'r sefydliad i sicrhau bod data wedi'i ddiogelu'n briodol ac yn rhoi eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau.

24. Storio Gwybodaeth Bersonol yn Ddiogel

Rhaid storio gwybodaeth bersonol mewn lleoliad diogel gyda mynediad ar gael i unigolion awdurdodedig sydd angen mynediad i'r wybodaeth bersonol benodol honno yn unig. Rhaid diogelu a chadw'r holl wybodaeth bersonol yn ddiogel er mwyn atal colled, camddefnydd neu ddifrod.

24.1. Cofnodion Papur

Dylid cadw gwybodaeth bersonol dan glo bob amser. Dylai unrhyw ddroriau, cypyrddau, cabinetau, ystafelloedd storio neu gynwysyddion storio fod yn gadarn ac wedi'u cloi pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Ni ddylid gadael dogfennau sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol ar ddesgiau swyddfa ac ystafell ddsbarth, ar fyrddau ystafelloedd staff na'u pinio i hysbysfyrddau lle ceir mynediad cyffredinol.

Dylid cymryd gofal arbennig os oes rhaid mynd â dogfennau allan o adeilad yr ysgol. Ni ddylid mynd â dogfennau sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol oddi ar safle'r ysgol oni bai bod mesurau diogelwch priodol ar waith i ddiogelu'r wybodaeth.

Dylid cadw dogfennau mewn lleoliad diogel a hygyrch sy'n cael ei ddiogelu rhag llifogydd, lleithder ac elfennau eraill. Efallai y bydd angen cadw rhai dogfennau mewn cynwysyddion aerdyn i'w diogelu rhag difrod amgylcheddol.

Dylid cau bleindiau ar ffenestri llawr gwaelod ar ddiwedd y dydd.

24.2. Cofnodion Electronig

Os cedwir gwybodaeth bersonol yn electronig, mae angen i fesurau diogelwch technegol priodol fod ar waith ar bob dyfais fel ffugenwi, amgryptio neu ddiogelu cyfrinair.

Mae angen i bob dyfais electronig sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol gael ei diogelu â chyfrinair gyda mynediad yn cael ei ddarparu i unigolion awdurdodedig yn unig.

Mae angen i gyfrineiriau cryf fod ar waith sy'n cynnwys o leiaf wyth nod; cymysgedd o gymeriadau bras a bach a chymysgedd o rifau a llythrennau. Dylid defnyddio cyfrineiriau gwahanol ar gyfer systemau a dyfeisiau ar wahân. Ni ddylid ysgrifennu cyfrineiriau a manylion mewngofnodi ac ni ddylid eu rhannu ag unrhyw un arall.

Bydd yr holl sgriniau cyfrifiaduron a gliniaduron yn cloi'n awtomatig ar ôl cyfnod penodol a bydd staff hefyd yn cloi eu sgriniau'n gorfforol os byddant yn gadael eu desgiau am gyfnod o amser.

Bydd data'n cael ei gadw wrth gefn yn unol â gweithdrefnau gwneud copi wrth gefn.

Dylid cadw pob dyfais electronig gludadwy mor ddiogel â phosibl. Os ydynt yn cynnwys gwybodaeth bersonol, dylid eu cadw dan glo ag allwedd pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

Dylid defnyddio meddalwedd amgryptio i ddiogelu pob dyfais gludadwy a chyfryngau symudadwy, megis dyfeisiau USB (cofion bach neu fath arall o storio cof nad yw'n rhan o'r cyfrifiadur ei hun) sy'n dal gwybodaeth bersonol. Ni ddylai aelodau'r staff symud dyfeisiau sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol (neu y gellir eu defnyddio i gael mynediad ati), o safle'r ysgol oni bai bod mesurau diogelwch priodol ar waith i ddiogelu gwybodaeth a'r ddyfais.

Ni anogir defnyddio dyfeisiau cyfryngau symudadwy pan fydd technolegau amgen ar gael lle nad oes angen trosglwyddo data'n gorfforol rhwng lleoliadau. Bydd yr ysgol yn symud i ffwrdd o ddefnyddio'r mathau hyn o ddyfeisiau ar gyfer storio gwybodaeth bersonol lle bynnag y bo modd.

Ni fydd aelodau'r staff yn defnyddio dyfeisiau personol na gyriannau (fel ffonau symudol) i storio neu rannu gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â'r ysgol a busnes gwaith.

25. Cael Gwared â Gwybodaeth Bersonol yn Ddiogel

Bydd gwybodaeth bersonol (a gwybodaeth categori arbennig) nad oes ei hangen mwyach yn unol â'r *Cyfnodau Cadw Cofnodion Ysgolion* yn cael ei dileu'n barhaol o systemau gwybodaeth yr ysgol a bydd unrhyw gopiau caled o wybodaeth bersonol yn cael eu dinistrio mewn modd diogel.

Gellir dinistrio gwybodaeth bersonol yn ddiogel drwy ddefnyddio peiriannau rhwygo traws neu drwy drefniadau gwaredu gwastraff diogel. Gall yr ysgol ddefnyddio trydydd parti priodol i waredu cofnodion yn ddiogel ar ran yr ysgol. Os felly, bydd yr ysgol yn ei gwneud yn ofynnol i'r trydydd parti ddarparu digon o sicrwydd ei fod yn cydymffurfio â chyfraith diogelu data (e.e., Tystysgrif Dinistr).

Ni fydd data personol yn cael ei adael mewn lleoliad anniogel tra yn y broses o gael ei ddinistrio'n ddiogel. Ni chaiff gwybodaeth bersonol ei diystyru drwy wastraff cyffredinol, ailgylchu na thrwy sgip. **Rhaid** defnyddio dull diogel ym mhob achos lle ceir data personol.

26. Ffi Diogelu Data Flynyddol

Mae'n ofynnol i ysgolion, fel pob sefydliad neu unig fasnachwr sy'n prosesu gwybodaeth bersonol, o dan *Reoliadau Diogelu Data (Ffioedd a Gwybodaeth) 2018*, dalu ffi diogelu data flynyddol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, oni bai eu bod wedi'u heithrio. **Mae'n ofynnol i bob ysgol dalu'r ffi diogelu data flynyddol.** Bydd methu â gwneud hynny yn arwain at gosb benodedig. Bydd yr ysgol yn cofrestru fel corff cyhoeddus.

Ychwanegir manylion cofrestru at y gofrestr gyhoeddus diogelu data y gellir ei gweld ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae gan yr ysgol rif cofrestru unigryw. Mae manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi'u cynnwys yn erbyn manylion cofrestru'r ysgol.

27. Ffotograffau a Delweddau

Fel rhan o weithgareddau'r ysgol, bydd ffotograffau a delweddau yn cael eu tynnu o unigolion o fewn yr ysgol. Bydd ffotograffau a delweddau a dynnwyd at ddefnydd swyddogol yr ysgol y gellir eu defnyddio ar gyfer deunyddiau cyfathrebu, marchnata a hyrwyddo yn cael eu cynnwys o dan yr *UK GDPR* a *Deddf Diogelu Data 2018* a bydd angen i'r ysgol roi gwybod i ddisgyblion pam eu bod yn cael eu cymryd a beth y byddant yn cael eu defnyddio ar eu gyfer.

Mae ffurflen ganiatâd ar gael ar dudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu sydd i'w defnyddio er mwyn cael caniatâd disgyblion/rhieni/y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant ynglŷn â ble y cyhoeddir y ffotograffau a'r delweddau. Darperir caniatâd ar wahanol elfennau o ran ble y gellir rhannu a defnyddio ffotograffau a delweddau megis ar wefan yr ysgol, cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, papurau newydd, llyfrynau, cylchlythyrau ac apiau.

Gellir gwrthod neu dynnu caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg. Os tynnir caniatâd yn ôl, bydd yr ysgol yn dileu'r ffotograff neu'r fideo ac yn peidio â'i ddosbarthu ymhellach.

Gall yr ysgol rannu'r daflen *Tynnu a Defnyddio Lluniau neu Fideos o'ch Plentyn yn yr Ysgol: Eich Hawliau* gyda rhieni, sydd ar gael ar dudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

Bydd yr ysgol yn cydymffurfio gyda'r *Polisi Tynnu Lluniau i Bwrpas Cyhoeddusrwydd Ysgolion*.

28. Gwefan a Chyfringau Cymdeithasol

Bydd yr ysgol yn cael caniatâd ysgrifenedig i rannu gwybodaeth bersonol am ddisgyblion ar ei gwefan a chyfrifon cyfringau cymdeithasol, gan gynnwys ffotograffau a delweddau. Bydd disgyblion, rhieni/y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant yn cael gwybod am ganlyniadau lledaenu data personol ledled y byd.

Mae ffurflen ganiatâd ar gael ar dudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu sydd i'w defnyddio er mwyn cael caniatâd disgyblion/rhieni/y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant ynghylch pa wybodaeth, ffotograffau a delweddau fydd yn cael eu cyhoeddi ar unrhyw wefannau a chyfrifon cyfringau cymdeithasol.

Gellir gwrthod neu dynnu caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg. Os tynnir caniatâd yn ôl, bydd yr ysgol yn cymryd pob cam rhesymol i ddileu/tynnu'r wybodaeth/ffotograff/delwedd oddi ar y wefan a/neu gyfrifon cyfringau cymdeithasol i atal dosbarthiad pellach. Fodd bynnag, rhaid cydnabod gan fod y data personol ar wefan a/neu gyfrifon cyfringau cymdeithasol, mae'n bosibl fod yr wybodaeth eisoes wedi'i gweld a'i rhannu y tu hwnt i reolaeth yr ysgol.

Gall yr ysgol rannu'r daflen *Tynnu a Defnyddio Lluniau neu Fideos o'ch Plentyn yn yr Ysgol: Eich Hawliau* gyda rhieni, sydd ar gael ar dudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

Bydd yr ysgol yn cydymffurfio gyda'r *Polisi Tynnu Lluniau i Bwrpas Cyhoeddusrwydd Ysgolion*.

29. E-bost

Bydd staff yr ysgol ond yn defnyddio cyfrif e-bost awdurdodedig i gyfathrebu mewn perthynas â busnes yr ysgol. Ni fydd staff yr ysgol yn defnyddio eu cyfrif e-bost personol i gyfathrebu â disgyblion ac i rannu data personol.

Os oes rhaid rhannu dogfennau sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol drwy e-bost, caiff y ddogfen ei diogelu â chyfrinair, gyda'r cyfrinair ar wahân a'i rhannu'n ddiogel gyda'r derbynnydd arfaethedig. Dylai amgryptiad cael ei ddefnyddio lle bynnag bosib er mwyn rhannu gwybodaeth personol drwy e-bost.

Bydd cyfrifon e-bost ysgolion hefyd yn amodol ar y rheoliadau diogelu data a rhaid dilyn y *Cyfnodau Cadw Cofnodion Ysgolion* ynghylch gwybodaeth bersonol a gynhwysir mewn negeseuon e-bost.

Bydd yr ysgol yn cydymffurfio â *Pholisi E-bost Staff Ysgolion*.

30. CCTV (os yn berthnasol)

Mae cipio a/neu recordio delweddau o unigolion adnabyddadwy yn enghraifft o brosesu gwybodaeth bersonol ac felly mae angen iddynt gydymffurfio â'r *UK GDPR* a *Deddf Diogelu Data 2018*. Rhaid i'r ysgol hefyd fod â *Pholisi CCTV* ar waith.

Mae angen cwblhau Aseiad Effaith Diogelu Data (DPIA) wrth ddefnyddio CCTV neu ystyried prynu system wylidwriaeth. Bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn rhoi arweiniad a chymorth i gwblhau'r rhain.

Mae angen hysbysu unigolion mewn *Hysbysiad Preifatrwydd* bod yr ysgol yn defnyddio CCTV.

Rhaid i'r ysgol hysbysu staff, disgyblion ac ymwelwyr pam ei bod yn casglu gwybodaeth bersonol ar ffurf delweddau CCTV. Rhaid cael arwydd sy'n hysbysu hyn ar waith ym mhob parth sy'n cael ei ffilmio. Bydd defnyddio arwyddion mewn manau amlwg wrth fynedfa'r ysgol ac yna defnyddio arwyddion pellach y tu mewn i'r parthau yn rhoi gwybod i bobl pan fyddant mewn ardal lle mae system wylidwriaeth ar waith.

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod ganddi gyfnod cadw penodol yn seiliedig ar yr angen posibl i adolygu'r ffilm a bydd yn ystyried pwy sy'n cael mynediad i'r ffilm hon a pham.

Bydd gan unigolion ac asiantaethau gorfodaeth y gyfraith yr hawl i ofyn am gael mynediad i'r delweddau. Bydd pob cais o'r fath yn cael ei gofnodi.

Bydd yr ysgol yn dilyn *'In the picture: A data protection code of practice for surveillance cameras and personal information'* a canllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)- *'Video Surveillance Guidance'*.

31. Gwybodaeth Fiometrig (os yn berthnasol)

Ystyrir y math hwn o wybodaeth fel data categori arbennig. Rhaid ymdrin â'r holl ddata o'r fath yn briodol ac yn unol ag egwyddorion *UK GDPR* a *Deddf Diogelu Data 2018*.

Mae enghreifftiau o systemau adnabod biometrig yn cynnwys olion bysedd a systemau adnabod wyneb (e.e., myfyrwyr sy'n defnyddio olion bysedd i dderbyn cinio ysgol yn hytrach na thalu gydag arian parod).

Bydd yr ysgol yn cael caniatâd ysgrifenedig disgyblion/rhieni/y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant cyn cofnodi a phrosesu manylion biometrig y disgybl. Mae'r ffurflen ganiatâd ar gael ar dudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

Gall disgyblion/rhieni/y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant wrthwynebu cymryd rhan yn systemau adnabod biometrig yr ysgol, neu dynnu caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg, a bydd yr ysgol yn sicrhau bod unrhyw ddata perthnasol a gasglwyd eisoes yn cael ei ddileu. Rhaid nodi dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau os nad yw rhiant/rhieni sydd â chyfrifoldeb rhiant neu ddisgybl yn rhoi caniatâd.

Os yw'r ysgol yn ystyried defnyddio technoleg adnabod wynebau byw (LFR), rhaid iddi drafod hyn gyda'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion cyn prynu'r dechnoleg hon. Bydd angen i'r ysgol ddangos safonau uchel o lywodraethu ac atebolrwydd o'r cychwyn cyntaf, gan gynnwys gallu cyfiawnhau bod y defnydd o LFR yn deg, yn angenrheidiol ac yn gymesur ym mhob cyd-destun penodol y caiff ei ddefnyddio ynddo. Mi fydd pob risg angen ei hystyried hefyd pan yn defnyddio y math o dechnoleg newydd yma.

32. Trosglwyddiadau Data Rhyngwladol

Os ydych yn bwriadu trosglwyddo unrhyw ddata personol neu ddata categori arbennig y tu allan i'r Deyrnas Unedig, dylid trafod hyn gyda'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion o flaen llaw.

Ni ellir trosglwyddo unrhyw ddata categori personol nac arbennig y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA), sy'n cynnwys y gwledydd yn yr Undeb Ewropeaidd a Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy. Gellir trafod hyn ymhellach gyda'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion os oes angen.

33. Parhad Busnes ac Adfer Trychinebau

Bydd yr ysgol yn adolygu'r data personol a gedwir a'r ffordd y caiff ei ddefnyddio yn rheolaidd er mwyn asesu pa mor werthfawr, sensitif neu gyfrinachol ydyw. Bydd yr ysgol hefyd yn asesu'r difrod neu'r trallod a allai gael ei achosi pe bai'r data'n cael ei beryglu.

Mae gan yr ysgol Gynllun Parhad Busnes a Chynllun Adfer Trychinebau mewn lle os bydd achosion yn codi. Mae rhain ar waith hefyd i sicrhau, os bydd achos corfforol neu dechnegol neu fethiant offer neu systemau TG (gan gynnwys caledwedd a meddalwedd), y gellir adfer argaeledd a mynediad at wybodaeth personol mewn modd amserol er mwyn osgoi colli data neu anargaeledd data.

Mae hyn yn cynnwys adnabod cofnodion sydd yn allweddol ar gyfer parhad swyddogaeth neu ail-gyfansoddiad busnes yr ysgol. Hefyd, lle y bo'n bosibl, mae disgrifiad cyffredinol o fesurau diogelwch technegol a sefydliadol yr ysgol wedi'u cynnwys yng *Nghofnodion o Weithgareddau Prosesu (ROPA)* yr ysgol.

Bydd yr ysgol yn arbed data sy'n cael ei storio'n electronig wrth gefn fel mater o drefn er mwyn cynorthwyo i adfer gwybodaeth os oes angen.

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod cofnodion electronig yn cael eu diogelu yn ystod newid technolegol e.e. yn ystod mudo i feddalwedd neu lwyfannau caledwedd newydd.

34. Hyfforddiant

Bydd y Pennaeth a'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol ynglŷn â'u cyfrifoldebau diogelu data. Bydd penaethiaid, llywodraethwyr ysgol ac unigolion y mae angen i'w rolau gael mynediad rheolaidd at wybodaeth bersonol, neu sy'n gyfrifol am weithredu'r polisi hwn, yn cael hyfforddiant ychwanegol i'w helpu i ddeall eu dyletswyddau a sut i gydymffurfio â hwy.

Bydd angen i holl staff yr ysgol sicrhau eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant modiwl e-ddysgu *GDPR* ac Ymwybyddiaeth Seibr gorfodol.

Bydd y Pennaeth yn cadw cofnod o bresenoldeb a chofrestr canolog o bwy sydd wedi cwblhau unrhyw hyfforddiant diogelu data a pha bryd y cafodd ei gwblhau.

35. Torri'r Polisi

Gallai peidio â chydymffurfio â'r polisi hwn gan aelodau o staff yr ysgol arwain at ganlyniadau difrifol.

Gall hyn arwain at roi'r unigolion y mae eu gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu a'r ysgol mewn perygl.

Mae perygl o gosbau sifil a throseddol sylweddol i'r unigolyn a'r awdurdodau ysgol a gymerir gan drydydd partïon. Gall unigolyn gyflawni trosedd o dan yr *UK GDPR*, er enghraifft, drwy gael a/neu ddatgelu data personol at ei ddibenion ei hun heb ganiatâd yr ysgol.

Felly, ystyrir bod diffyg cydymffurfio gan aelod o staff yn fater disgyblu a allai, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, arwain at ddiswyddo am gamymddwyn difrifol.

Os bydd rhywun nad yw'n gyflogai yn torri'r polisi hwn, efallai y bydd ei contract yn dod i ben ar unwaith.

36. Adolygu'r Polisi a Threfniadau Arolygiaeth

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn flynyddol. Bydd y polisi hwn yn cael ei gymeradwyo gan Uwch Dîm Reolaeth y Gwasanaeth Dysgu gyda mewnbwn gan y Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion a bydd yn cael ei fabwysiadu gan gorff llywodraethu'r ysgol. Caiff cydymffurfiaeth â'r polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig eu monitro gan Dîm Arweinyddiaeth yr ysgol a'r corff llywodraethu.

Os oes unrhyw ymholiadau neu bryderon am unrhyw beth a gynhwysir yn y polisi hwn, dylid cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion heb betruso:

E-bost: dpoysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru

Rhif ffôn: 01248 751833

Cyfeiriad:

Gwasanaeth Dysgu
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Gellir cael rhagor o wybodaeth am ddiogelu data ar wefan yr ICO: <https://ico.org.uk/>

Content	Page
1. Policy Statement	40
2. Scope	40
3. Legislation, Guidance and Policies	41
4. Responsibilities	41
4.1. School Governing Body	42
4.2. Headteacher (and/or Person Responsible for Data Protection within the School)	42
4.3. Staff within the School	43
4.4. Schools Data Protection Officer	43
5. Data Protection Principles	44
6. Data Subject's Rights	45
6.1. The right to be informed	45
6.2. The right of access	45
6.3. The right to rectification	47
6.4. The right to erase	47
6.5. The right to restrict processing	47
6.6. The right to data portability	48
6.7. The right to object	48
6.8. Rights in relation to automated decision making and profiling	49
6.9. Other rights	49
7. Children's Rights	49
8. Parent's Rights	50
9. Conditions for Processing (Legal Basis)	50
9.1. Article 6	50
9.2. Article 9	51
10. Special Categories of Personal Data	52
11. Consent	53
12. Accuracy and Relevance	54
13. Retention of Personal Information	54
14. Data Recording	54
15. Records of Processing Activities (ROPA)	54
16. Disclosure and Sharing of Information	56
16.1. Request from Third Parties for an Individual's Personal Information	57
16.2. Protection of Children and Vulnerable Adults	58
17. Freedom of Information Requests	58
17.1 Publication Scheme	59
18. Data Breaches	60
19. Sharing Data Protection Concerns	61
20. Information Asset Register	62
21. Privacy Notice	62
22. Data Protection Impact Assessments (DPIAs)	63
23. Information Security	63
23.1. School	63
23.2. External Organisations	64

24. Secure Storage of Personal Information	65
24.1. Paper Records	65
24.2. Electronic Records	65
25. Secure Disposal of Personal Information	66
26. Annual Data Protection Fee	66
27. Photographs and Images	67
28. Website and Social Media	67
29. E-mail	68
30. CCTV (if relevant)	68
31. Biometric Information (if relevant)	69
32. International Data Transfers	69
33. Business Continuity and Disaster Recovery	70
34. Training	70
35. Breach of the Policy	70
36. Review of Policy and Oversight Arrangements	71
APPENDIX A- Schools Data Protection Bilingual Glossary, Definitions and Legislation	72

1. Policy Statement

In order to operate efficiently, the school has to collect and use information about individuals with whom it works with. In addition, it may be required by law to collect and use information in order to comply with the requirements of the Welsh Government.

This policy sets out how the school complies with data protection obligations and seeks to protect personal information (*please see APPENDIX A for the relevant definition*). The school is fully committed to ensuring that personal information is properly managed and protected and that it ensures full compliance with data protection legislation.

Its purpose is also to ensure that all staff members understand and comply with the rules governing the collection, use and deletion of personal information to which they may have access to in the course of their work. The school will ensure that it treats personal information lawfully and correctly.

The school will make every effort to meet its obligations under the legislation and will regularly review procedures to ensure that it is doing so. The school will consult and seek the advice of the Schools Data Protection Officer relating to any issues, concerns or questions and before initiating any new data processing activities.

2. Scope

This policy applies to all employees, governors, contractors, agencies, representatives, and temporary staff working for and who process personal data on behalf of the school.

This policy applies to the personal information of job applicants, current and former staff, including employees, temporary and agency workers, governors, suppliers, volunteers, trainees/students, visitors, pupils, and parents/those with parental responsibility.

This policy applies to all personal information created or held by the school in whatever format (including, but not limited to, paper, electronic, e-mail, film, video, CCTV, photographic images) and however it is stored (for example ICT system/database, shared drive filing structure, e-mail, filing cabinet, shelves, and drawers).

Mae sail gyfreithiol yn golygu, os yw sefydliad am brosesu data personol, fod angen nodi seiliau cyfreithiol penodol ar gyfer prosesu fel y'u diffinnir yn Erthygl 6 UK GDPR ac Erthygl 9 UK GDPR.	Sail gyfreithiol Legal basis	<i>Legal basis means that if an organisation wants to process personal data, there is a need to identify specific legal grounds for the processing as defined in Article 6 UK GDPR and Article 9 UK GDPR.</i>
Gan y gwrthrych data yn golygu unrhyw arwydd rhydd, penodol, gwybodus a diamwys o ddymuniadau gwrthrych y data y mae ef neu hi, drwy ddatganiad neu drwy gam cadarnhaol clir, yn arwydd o gytundeb i brosesu data personol sy'n ymwneud ag ef neu hi. Mae'r baich o	Caniatâd Consent	<i>Of the data subject means any freely given, specific, informed, and unambiguous indication of the data subject's wishes by which he or she, by a statement or by a clear affirmative action, signifies agreement to the processing of personal data relating to him or her. The burden of demonstrating</i>

ddangos caniatâd ar y rheolydd data.		<i>consent is on the data controller.</i>
Ystyr Cymalau Enghreifftiol yw'r cymalau cytundebol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd i lunio trosglwyddiadau data gan Reolyddion a sefydlwyd yn yr EEA i Reolyddion a sefydlwyd y tu allan i'r EEA.	Cymalau Enghreifftiol Model Clauses	<i>Model Clauses means the contractual clauses issued by the European Commission to frame data transfers from Controllers established in the EEA to Controllers established outside of the EEA.</i>
Termau yn berthnasol i Risg / Terms relating to Risk		
Effaith ansicrwydd ar amcanion. Risgiau i unigolion: y potensial am ddifrod neu drallod. Nodweddir risg yn aml gan gyfeirio at "ddigwyddiadau" a "chanlyniadau" posibl, neu gyfuniad o'r rhain.	Risg Risk	<i>Effect of uncertainty on objectives. Risks to individuals: the potential for damage or distress. Risk is often characterised by reference to potential "events" and "consequences", or a combination of these.</i>
Adnabyddiad a dadansoddiad o risgiau i amcanion busnes y sefydliad.	Asesiad Risg Risk Assessment	<i>The identification and analysis of risks to the organisation's business objectives.</i>
Beth fyddai canlyniadau'r risg pe bai'n digwydd. Effaith yn cael ei ystyried fel un sy'n cael effaith uniongyrchol neu effaith yn y dyfodol.	Effaith Impact	<i>What are the consequences of the risk were it to occur. Impact is considered as having either an immediate effect or a future effect.</i>
Pa mor debygol yw'r risg o ddigwydd – ansicrwydd, siawns a thebygolrwydd.	Tebygolrwydd Likelihood	<i>How likely is it that the risk will occur- uncertainty, chance, and probability.</i>
Mesur sy'n addasu risg.	Rheolaeth Control	<i>Measure that is modifying risk.</i>
Termau yn berthnasol i fesurau diogelwch / Terms relating to security measures		
Y broses lle prosesir gwybodaeth bersonol mewn ffordd na ellir ei defnyddio i adnabod unigolyn heb ddefnyddio gwybodaeth ychwanegol, a gadwir ar wahân ac yn amodol ar fesurau technegol a sefydliadol i sicrhau na ellir priodoli gwybodaeth bersonol i unigolyn a ellir ei adnabod.	Ffugenwau Pseudonymised	<i>The process by which personal information is processed in such a way that it cannot be used to identify an individual without the use of additional information, which is kept separately and subject to technical and organisational measures to ensure that the personal information cannot be attributed to an identifiable individual.</i>

Cael gwared â gwybodaeth a ellir ei defnyddio i adnabod rhywun oddi ar rywbeth (megis data cyfrifiadur) fel na ellir gwybod beth oedd y ffynhonnell wreiddiol na'i hadnabod.	Gwybodaeth Dienw Anonymised	<i>To remove identifying information from something (such as computer data) so that the original source cannot be known or identified.</i>
Mae amgryptio data yn ddull diogelwch lle mae gwybodaeth yn cael ei hamgodio a dim ond defnyddiwr sydd â'r allwedd amgryptio gywir y gall gael gafael ar neu ddadgryptio data. Mae data wedi'i amgryptio yn ymddangos wedi'i sgramblo neu'n annarllenadwy i berson neu endid sy'n cael mynediad heb ganiatâd.	Amgryptio Encryption	<i>Data encryption is a security method where information is encoded and can only be accessed or decrypted by a user with the correct encryption key. Encrypted data appears scrambled or unreadable to a person or entity accessing without permission.</i>
Dilysu yw'r broses o benderfynu a yw rhywun (neu rywbeth) yn bwy (neu beth) y mae'n honni ei fod.	Dilysu Authentication	<i>Authentication is the process of determining if someone (or something) is who (or what) it claims to be.</i>
Mae dilysu dau ffactor, wedi'i dalfyrio i 2FA, yn broses ddilysu sy'n gofyn am ddau ffactor dilysu gwahanol i sefydlu hunaniaeth - mae'n golygu ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddiwr brofi ei hunaniaeth mewn dwy ffordd wahanol cyn rhoi mynediad iddynt i system.	Dilysu ddau ffactor (2FA) Two-factor authentication (2FA)	<i>Two-factor authentication, abbreviated as 2FA, is an authentication process that requires two different authentication factors to establish identity- it means requiring a user to prove their identity in two different ways before granting them access to a system.</i>
Termau yn berthnasol i ddiogelwch a digwyddiadau seibr / Terms relating to cyber security and incidents		
Cyfeiria seiberddiogelwch at y corff o dechnolegau, prosesau ac arferion sydd wedi'u cynllunio i ddiogelu rhwydweithiau, dyfeisiau, rhaglenni a data rhag ymosodiad, difrod neu fynediad heb awdurdod.	Seiberddiogelwch Cyber security	<i>Cyber security refers to the body of technologies, processes, and practices designed to protect networks, devices, programs, and data from attack, damage, or unauthorised access.</i>
Mae ymosodiad seiber yn ymosodiad a gychwynnir o gyfrifiadur yn erbyn gwefan, system gyfrifiadurol neu gyfrifiadur unigol (gyda'i	Ymosodiad Seiber Cyber attack	<i>A cyber-attack is an attack initiated from a computer against a website, computer system or individual computer (collectively, a</i>

gilydd, cyfrifiadur) sy'n peryglu cyfrinachedd, uniondeb neu argaeledd y cyfrifiadur neu'r wybodaeth a gedwir arno.		<i>computer) that compromises the confidentiality, integrity or availability of the computer or information stored on it.</i>
Mae haciwr yn unigolyn sy'n defnyddio cyfrifiadur, rhwydweithio neu sgiliau eraill i oresgyn problem dechnegol ac sy'n cael mynediad anghyfreithlon i wybodaeth mewn system gyfrifiadurol ac weithiau'n ymyrryd â hi.	Hacwyr Hackers	<i>A hacker is an individual who uses a computer, networking, or other skills to overcome a technical problem and who illegally gains access to and sometimes tampers with information in a computer system.</i>
Heb hawl cyfreithlon.	Anawdurdodedig Unauthorised	<i>Without a legitimate right.</i>
Achos potensial o ddigwyddiad dieisiau, y gall arwain at niwed i system neu sefydliad.	Bygythiad Threat	<i>Potential cause of an unwanted incident, which can result in harm to a system or organisation.</i>
Mae sgamwyr yn anfon e-byst ffug at filoedd o bobl yn gofyn am wybodaeth sensitif (fel manylion banc) neu'n cynnwys dolenni i wefannau drwg. Mae nhw'n gwneud hyn i ddwyn manylion er mwyn eu gwerthu neu o bosibl i gyrchu gwybodaeth sydd yn cael ei ddal gan sefydliadau.	Gwe-rwydo Phishing	<i>Scammers send fake emails to thousands of people asking for sensitive information (such as bank details) or containing links to bad websites. They do this to steal details to sell or perhaps to access information held by organisations.</i>
Meddalwedd sydd wedi'i gynllunio'n benodol i darfu, difrodi neu gael mynediad heb awdurdod i system gyfrifiadurol.	Drwgwedd Malware	<i>Software that is specifically designed to disrupt, damage, or gain unauthorised access to a computer system.</i>
Term rhithwir ar gyfer mentro neu anfon negeseuon ymfflamychol mewn e-bost.	Fflamio Flaming	<i>A virtual term for venting or sending inflammatory messages in an e-mail.</i>
Negeseuon amherthnasol neu ddigymell a anfonir dros y rhyngwyd/e-bost, fel arfer at nifer fawr o ddefnyddwyr, at ddibenion hysbysebu, gwe-rwydo, lledaenu drwgwedd, ac ati.	Sbam Spam	<i>Irrelevant or unsolicited messages sent over the internet/e-mail, typically to a large number of users, for the purposes of advertising, phishing, spreading malware, etc.</i>
Mae firws cyfrifiadurol yn fath o raglen gyfrifiadurol faleisus, sydd, pan gaiff ei gweithredu, yn ailadrodd ei hun ac yn	Firws Cyfrifiadurol Computer Virus	<i>A computer virus is a kind of malicious computer program, which when executed, replicates itself</i>

mewnosod ei chod ei hun. Pan wneir yr atgynhyrchu, mae'r cod hwn yn heintio'r ffeiliau a'r rhaglenni arall sy'n bresennol ar y system.		<i>and inserts its own code. When the replication is done, this code infects the other files and program present on the system.</i>
Meddalwedd sy'n galluogi defnyddiwr i gael gwybodaeth gudd am weithgareddau cyfrifiadurol un arall drwy drosglwyddo data'n gudd o'u gyriant caled.	Ysbiwedd Spyware	<i>Software that enables a user to obtain covert information about another's computer activities by transmitting data covertly from their hard drive.</i>
Rhaglen a gynlluniwyd i dorri diogelwch system gyfrifiadurol tra'n cyflawni rhywfaint o swyddogaeth ddiniwed.	Trojan horses	<i>A program designed to breach the security of a computer system while ostensibly performing some innocuous function.</i>
Unrhyw ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol neu dechnoleg cyfathrebu i fwlio unigolyn neu grŵp.	Bwlio seibr Cyber bullying	<i>Any use of social media or communication technology to bully an individual or group.</i>
Termau yn berthnasol i Technoleg Gwybodaeth / Terms relating to Information Technology		
Cyfrifiaduron prosesu gwybodaeth neu systemau cyfathrebu data.	Systemau Gwybodaeth Information Systems	<i>Information processing computers or data communication systems.</i>
Mae storio cwmwl yn fodel cyfrifiadura cwmwl lle caiff data ei storio ar weinyddion o bell a gyrchir o'r rhynggrwyd, neu "gwmwl". Mae'n cael ei gynnal, ei weithredu a'i reoli gan ddarparwr gwasanaeth storio cwmwl ar weinyddion storio sy'n cael eu hadeiladu ar dechnegau rhithiol.	Storio cwmwl Cloud storage	<i>Cloud storage is a cloud computing model in which data is stored on remote servers accessed from the internet, or "cloud." It is maintained, operated, and managed by a cloud storage service provider on storage servers that are built on virtualisation techniques.</i>
Mae'r gair "ap" yn dalfyriad ar gyfer "application" yn y Saesneg. Mae'n ddarn o feddalwedd sy'n gallu rhedeg drwy borwr gwe neu all-lein ar gyfrifiadur, ac ar ffôn clyfar, tabled neu ddyfeisiau electronig eraill.	Ap App	<i>The word "app" is an abbreviation for "application." It is a piece of software that can run through a web browser or offline on a computer, and on a smartphone phone, tablet, or other electronic devices.</i>
Mae system etifeddiaeth, a elwir hefyd yn blatfform etifeddiaeth (<i>legacy platform</i>),	System Etifeddiaeth	<i>A legacy system, also known as a legacy platform, is one that is based on</i>

yn un sy'n seiliedig ar dechnoleg neu offer sydd wedi darfod.	Legacy System	<i>obsolete technology or equipment.</i>
Unrhyw blattform ar-lein sy'n cynnig rhyngweithio amser real rhwng y defnyddiwr ac unigolion neu grwpiau eraill. Mae enghreifftiau'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i lwyfannau cyfathrebu, fforymau trafod ar-lein, blogiau, manau cydweithredol, gwasanaethau rhannu cyfryngau, apiau micro-flogio a defnyddio gwe-gamerâu.	Cyfryngau cymdeithasol Social media	<i>Any online platform that offers real-time interaction between the user and other individuals or groups. Examples include, but are not limited to communication platforms, online discussion forums, blogs, collaborative spaces, media sharing services, micro-blogging applications and the use of webcams.</i>
Mae dysgu cyfunol yn ddull cyfarwyddiadol sy'n cynnwys cyfuniad o weithgareddau dysgu ar-lein ac wyneb yn wyneb. Er enghraifft, gall myfyrwyr gwblhau aseiniadau hunan-gyflymder ar-lein erbyn dyddiad penodol ac yna cyfarfod ar y safle neu ar-lein ar gyfer gweithgareddau dysgu ychwanegol.	Dysgu Cyfunol Blended learning	<i>Blended learning is an instructional approach that includes a combination of online and in-person learning activities. For example, students can complete online self-paced assignments by a certain date and then meet on-site or online for additional learning activities.</i>
Pan fydd dysgwyr yn cymryd rhan mewn cwrs dysgu ar-lein ar yr un pryd ond mewn gwahanol leoliadau, fe'i gelwir yn ddysgu cydamserol. Mae dysgu cydamserol yn caniatáu i ddysgwyr rhyngweithio â'r hyfforddwr a chyfranogwyr eraill. Gwneir hyn drwy feddalwedd sy'n creu ystafell ddosbarth rithiol.	Dysgu cydamserol (dysgu ar y pryd) Synchronous learning (simultaneous learning)	<i>When learners participate in an online learning course at the same time but in different locations, it is known as synchronous learning. Synchronous learning allows learners to interact with the instructor and other participants. This is done through software that creates a virtual classroom.</i>
Mae dysgu anghydamserol yn ddull o addysg lle mae disgyblion yn dysgu'r un cynnwys o wahanol leoedd (daearyddol) ac ar wahanol adegau. Gall disgyblion gael gafael ar ddeunyddiau, gofyn cwestiynau, ac ymarfer eu medrau ar unrhyw adeg sy'n gweithio iddyn nhw.	Dysgu anghydamserol (dysgu nad yw'n ddysgu ar y pryd) Asynchronous learning (non-simultaneous learning)	<i>Asynchronous learning is an approach to education where pupils learn the same content from different (geographic) places and at different times. Pupils can access materials, ask questions, and practice their skills at any time that works for them.</i>

<p>Mae'r ystafell ddosbarth rithiol yn cyfeirio at amgylchedd dysgu ystafell ddosbarth ddigidol sy'n digwydd dros y rhyngwrwyd yn hytrach nag mewn ystafell ddosbarth ffisegol. Fe'i gweithredir drwy feddalwedd sy'n caniatáu i athro a myfyrwyr ryngweithio.</p>	<p>Ystafell ddosbarth rithiol</p> <p>Virtual classroom</p>	<p><i>The virtual classroom refers to a digital classroom learning environment that takes place over the internet rather than in a physical classroom. It is implemented through software that allows a teacher and students to interact.</i></p>
<p>Mae cyfryngau ffrydio yn cyfeirio at fideo a sain sy'n cael ei lawrlwytho i gyfrifiadur o'r rhyngwrwyd fel lliw parhaus o ddata ac sy'n cael ei chwarae wrth iddo gyrraedd y cyfrifiadur cyrchfan.</p>	<p>Cyfryngau ffrydio</p> <p>Streaming media</p>	<p><i>Streaming media refers to video and audio that is downloaded to a computer from the internet as a continuous stream of data and is played as it reaches the destination computer.</i></p>
<p>Gofodau ar y rhyngwrwyd (safleoedd/tudalennau) lle gallwch gwrdd â phobl eraill a sgwrsio, naill ai mewn amser real (ystafelloedd sgwrsio a sgwrsio byw) neu drwy negeseuon a byrddau negeseuon.</p>	<p>Gofod cymdeithasol ar-lein</p> <p>Online social space</p>	<p><i>Internet areas (sites/pages) where you can meet other people and chat, either in real-time (chatrooms and live chat) or via messages and message boards.</i></p>
<p>System wybodaeth ar y rhyngwrwyd yw'r We Fyd-eang sy'n caniatáu i ddogfennau gael eu cysylltu â dogfennau eraill drwy ddolenni hyperdestun, gan alluogi'r defnyddiwr i chwilio am wybodaeth drwy symud o un ddogfen i'r llall.</p>	<p>Gwe Fyd-eang (www.)</p> <p>World Wide Web (www.)</p>	<p><i>World Wide Web is an information system on the internet which allows documents to be connected to other documents by hypertext links, enabling the user to search for information by moving from one document to another.</i></p>
<p>Podlediad yw'r arfer o ddefnyddio'r rhyngwrwyd i sicrhau bod recordiadau digidol o ddarllediadau ar gael i'w lawrlwytho i gyfrifiadur neu ddyfais symudol.</p>	<p>Podledu</p> <p>Podcasting</p>	<p><i>Podcasting is the practice of using the internet to make digital recordings of broadcasts available for downloading to a computer or mobile device.</i></p>
<p>Tudalen we sy'n cynnwys ffenestr lle gallwch deipio testun i alluogi sgwrs 'amser real' ar ffurf testun gydag unigolion neu grwpiau bach.</p>	<p>Ystafell sgwrsio</p> <p>Chatroom</p>	<p><i>A web page that contains a window into which you can type text to enable a 'real-time' conversation in text form with individuals or small groups.</i></p>
<p>Gwefan lle mae cofnodion rheolaidd yn cael eu gwneud ar ffurf cyfnodolyn neu</p>	<p>Blog / Flog</p> <p>Blog / Vlog</p>	<p><i>A website where regular entries are made in the form of an on-line journal or</i></p>

<p>ddyddiadur ar-lein. Mae Blog neu 'log gwe' yn aml yn cynnig sylwebaeth neu newyddion ar bwnc penodol tra bod Flog yn defnyddio fideo i ddogfennu eu bywydau bob dydd fel dyddiadur fideo parhaus. Trefnir blogiau yn gronolegol fel arfer a chyda llai o ffurfioldeb na gwefan. Mae llawer o flogiau'n derbyn ac yn ymateb i sylwadau.</p>		<p><i>diary. A Blog or 'web log' often offers commentary or news on a particular subject whilst Vlog uses video to document their daily lives as an ongoing video diary. Blogs are usually arranged chronologically and with less formality than a website. Many blogs accept and respond to comments.</i></p>
<p>Gwefan neu adnodd tebyg sy'n caniatáu i ddefnyddwyr ychwanegu a golygu cynnwys gyda'i gilydd.</p>	<p>Wici Wiki</p>	<p><i>A website or similar resource that allows users to add and edit content collectively.</i></p>
<p>Pecyn meddalwedd neu ap symudol am ddim yw porwr sy'n dangos tudalennau gwe, graffeg a'r rhan fwyaf o gynnwys ar-lein. Mae meddalwedd porwr wedi'i gynllunio'n benodol i drosi cod cyfrifiadurol HTML ac XML yn ddogfennau y gellir eu darllen gan bobl. Mae porwyr yn dangos tudalennau gwe.</p>	<p>Porwr Browser</p>	<p><i>A browser is a free software package or mobile app that displays web pages, graphics, and most online content. Browser software is specifically designed to convert HTML and XML computer code into human-readable documents. Browsers display web pages.</i></p>
<p>Tudalen we yw'r hyn sydd i'w weld mewn porwr gwe pan fydd ar y rhyngwyd. Gall tudalennau gynnwys testun, ffotograffau, delweddau, diagramau, dolenni, hysbysebion, a mwy ar unrhyw dudalen a welir.</p>	<p>Tudalen We Web Page</p>	<p><i>A web page is what can be seen in a web browser when on the internet. Pages may include text, photos, images, diagrams, links, advertisements, and more on any page that is viewed.</i></p>
<p>URLau yw cyfeiriadau tudalennau a ffeiliau gwe ar borwr.</p>	<p>URL</p>	<p><i>URLs are the web browser addresses of internet pages and files.</i></p>
<p>Mae fideo-gynadledda yn degyfathrebu ar ffurf fideo-gynhadledd sef cynnal cynhadledd ymysg pobl mewn lleoliadau anghysbell drwy gyfrwng signalau sain a fideo a drosglwyddir.</p>	<p>Fideo-gynadledda Videoconferencing</p>	<p><i>Videoconferencing is telecommunication in the form of a videoconference which is the holding of a conference among people at remote locations by means of transmitted audio and video signals.</i></p>

Mae PDA yn gyfrifiadur sy'n ffitio yng nghledr eich llaw i helpu i gasglu gwybodaeth fel cysylltiadau, apwyntiadau, ffeiliau a rhaglenni.	Cymhorthion digidol personol (PDAau) Personal digital aids (PDAs)	<i>PDA is a computer that fits in the palm of your hand to help collect such information as contacts, appointments, files, and programs.</i>
Mae lawrlwytho yn derm eang sy'n disgrifio trosglwyddo rhywbeth ar y rhyngwrwyd neu'r We Fyd-eang i gyfrifiadur neu ddyfais arall. Fel arfer, mae llwytho i lawr yn gysylltiedig â chaneuon, cerddoriaeth a ffeiliau meddalwedd.	Lawrlwytho Downloading	<i>Downloading is a broad term that describes transferring something on the internet or the World Wide Web to a computer or another device. Commonly, downloading is associated with songs, music, and software files.</i>
System dechnegol yw Bluetooth sy'n caniatáu i bobl gyfnewid gwybodaeth a data gan ddefnyddio gwahanol fathau o ddyfeisiau electronig fel cyfrifiaduron, ffonau symudol, argraffwyr, camerâu fideo ac ati heb ddefnyddio gwifrau.	Bluetooth	<i>Bluetooth is a technical system that allows people to exchange information and data using different types of electronic devices such as computers, mobile phones, printers, video cameras, etc. without using wires.</i>
Termau yn berthnasol i E-byst / Terms relating to E-mails		
Negeseuon a ddosberthir drwy ddulliau electronig gan un defnyddiwr cyfrifiadur i un neu fwy o dderbynwyr drwy rwydwaith. Yn ogystal â chynnwys testunol, mae e-bost yn caniatáu i'r anfonwr anfon ffotograffau, fideo neu glipiau sain ar ffurf neu ffeiliau digidol.	E-bost E-mail	<i>Messages distributed by electronic means from one computer user to one or more recipients via a network. In addition to textual content, e-mail allows the sender to send photographs, video or sound clips in digital form or files.</i>
Y gyrchfan y cyflwynir negeseuon post electronig iddi. Mae'n cyfateb i flwch llythyrau yn y system bost.	Blwch Post Mailbox	<i>The destination to which electronic mail messages are delivered. It is the equivalent of a letter box in the postal system.</i>
Termau yn berthnasol i CCTV / Terms relating to CCTV		
Monitro symudiadau ac ymddygiad unigolion; gall hyn gynnwys fideo, sain neu ffilm fyw. At ddibenion y polisi hwn, dim ond fideos fydd yn berthnasol.	Gwyliadwraeth Surveillance	<i>Monitoring the movements and behaviour of individuals; this can include video, audio, or live footage. For the purpose of this policy, only video footage will be applicable.</i>
Unrhyw ddefnydd o wylidwriaeth nad yw ei	Gwyliadwraeth Agored	<i>Any use of surveillance for which authority does not fall</i>

hawdurdod yn dod o dan <i>Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000.</i>	Overt surveillance	<i>under the Regulation of Investigatory Powers Act 2000.</i>
Unrhyw ddefnydd o wyliadwriaeth nad yw'n cael ei rannu'n fwriadol â'r gwrthrychau y mae'n eu recordio. Ni fydd gwrthrychau'n cael gwybod am wyliadwriaeth o'r fath.	Gwyliadwriaeth cudd Covert surveillance	<i>Any use of surveillance which is intentionally not shared with the subjects it is recording. Subjects will not be informed of such surveillance.</i>
Termau yn berthnasol i reoli cofnodion / Terms relating to records management		
Cadw'r wybodaeth yn gyflawn, yn gywir ac yn ddilys.	Cywirdeb Integrity	<i>The preservation of the complete, accurate and validated state of information.</i>
Cofnodion sydd wedi'u dewis ar gyfer cadwraeth hirdymor oherwydd eu gwerth parhaus fel tystiolaeth neu fel ffynhonnell ar gyfer ymchwil hanesyddol neu ymchwil arall.	Archifau Archive	<i>Records that have been selected for long term preservation because of their enduring value as evidence or as a source for historical or other research.</i>
Gellir adneuo cofnodion ar fenthyciad amhenodol ac os felly mae'r adneuwyr yn cadw perchnogaeth ar y cofnodion. Mae gan yr adneuwyr yr hawl i dynnu eitemau'n ôl dros dro at ddibenion cyfreithiol, cyfeirio neu arddangosfa.	Adneuo cofnodion Depositing records	<i>Records can be deposited on indefinite loan in which case the depositor retains ownership of the records. Depositors retain the right to temporarily withdraw items for legal purposes, reference, or exhibition.</i>

Termau a Dogfennau / Terms and Documents

Disgrifiad	Termau a Dogfennau / Terms and Documents	Description
Mae'r Rhestr o Asedau Gwybodaeth yn cynnwys gwybodaeth am ba ddata a gedwir, lle caiff ei storio, sut y caiff ei ddefnyddio, pwy sy'n gyfrifol ac unrhyw reoliadau neu amserlenni cadw pellach a allai fod yn berthnasol.	Rhestr o Asedau Gwybodaeth Information Asset Register	<i>The information asset register contains information on what data is held, where it is stored, how it is used, who is responsible and any further regulations or retention timescales that may be relevant.</i>

<p>Mae angen i'r ROPA gynnwys yr holl ofynion perthnasol a nodir yn Erthygl 30 o'r UK GDPR. Mae'r ROPA yn rhestru pob gweithgaredd prosesu unigol; yn disgrifio union ddefnydd y data; y mesurau technegol a threfniadol sydd ar waith i ddiogelu'r data; pwy a effeithir gan y prosesu; dadansoddi risg a phroseswyr data posibl.</p>	<p>Cofnodion o Weithgareddau Prosesu (ROPA)</p> <p>Records of Processing Activities (ROPA)</p>	<p><i>The ROPA needs to contain all the relevant requirements set out in Article 30 of the UK GDPR. The ROPA lists every single processing activity; describes the exact usage of the data; the technical and organisational measures that are in place for the protection of the data; who is affected by the processing; risk analysis and possible data processors.</i></p>
<p>Mae Hysbysiad Preifatrwydd yn rhoi gwybod i unigolion am yr wybodaeth bersonol sy'n cael ei chasglu ac sy'n cael ei chadw amdanynt a sut y gallent ddisgwyl i'w gwybodaeth bersonol gael ei defnyddio ac at ba ddibenion. Rhaid i'r Hysbysiad Preifatrwydd fod yn benodol i'r gweithgaredd sy'n gofyn am wybodaeth bersonol.</p>	<p>Hysbysiad Preifatrwydd</p> <p>Privacy Notice</p>	<p><i>A Privacy Notice informs individuals about the personal information that is collected and is held about them and how they can expect their personal information to be used and for what purposes. The Privacy Notice must be specific to the activity which requires personal information.</i></p>
<p>Mae DPIA yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer prosesu gweithgareddau sy'n debygol o fod yn risg uchel. Bydd DPIA yn cael ei wneud cyn dechrau'r prosesu, lle mae prosesu'n debygol o arwain at risg uchel i hawliau a rhyddid unigolyn (e.e., lle mae'r ysgol yn bwriadu defnyddio math newydd o dechnoleg).</p>	<p>Asesiadau Effaith Diogelu Data (DPIAau)</p> <p>Data Protection Impact Assessments (DPIA)</p>	<p><i>DPIAs are a legal requirement for processing activities that are likely to be high risk. A DPIA is performed before commencing the processing, where processing is likely to result in a high risk to an individual's rights and freedoms (e.g., where the school is planning to use a new form of technology).</i></p>
<p>Mae cytundeb prosesu data yn gontract cyfreithiol rwymol sy'n nodi hawliau a rhwymedigaethau pob parti (rheolwr data a phrosesydd data) sy'n ymwneud â diogelu data personol. Mae angen cytundeb prosesu data ar y rheolwr data gydag unrhyw</p>	<p>Cytundeb Prosesu Data (DPA)</p> <p>Data Processing Agreement (DPA)</p>	<p><i>A data processing agreement is a legally binding contract that states the rights and obligations of each party (data controller and data processor) concerning the protection of personal data. The data controller needs a data processing agreement with</i></p>

bartïon sy'n gweithredu fel proseswyr data ar eu rhan.		<i>any parties that act as data processors on their behalf.</i>
Digwyddiad diogelwch sy'n arwain at ddinistrio, colli, addasu, datgelu'n anawdurdodedig neu fynediad at ddata personol a drosglwyddir, a storir neu a brosesir mewn unrhyw ddull arall gan yr ysgol, yn ddamweiniol neu'n anghyfreithlon.	Digwyddiad Diogelwch Data Data breach	<i>A breach of security leading to the accidental or unlawful destruction, loss, alteration, unauthorised disclosure of, or access to, personal data transmitted, stored, or otherwise processed information.</i>
Lle datgelir data personol neu le ceir mynediad ato yn anawdurdodedig neu'n ddamweiniol.	Digwyddiad cyfrinachedd Confidentiality breach	<i>Where there is an unauthorised or accidental disclosure of, or access to, personal data.</i>
Lle mae data personol yn cael ei newid yn anawdurdodedig neu'n ddamweiniol.	Digwyddiad cywirdeb Integrity breach	<i>Where there is an unauthorised or accidental alteration of personal data.</i>
Lle mae colled mynediad at, neu ddinistr i ddata personol yn ddamweiniol neu'n anawdurdodedig.	Digwyddiad argaeledd Availability breach	<i>Where there is an accidental or unauthorised loss of access to, or destruction of, personal data.</i>
Mae'r WASPI yn ffordd i sefydliadau sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag iechyd, addysg, diogelwch, atal troseddau a lles cymdeithasol pobl yng Nghymru, rannu gwybodaeth bersonol yn effeithiol ac yn gyfreithlon.	Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) Wales Accord on the Sharing of Personal Information (WASPI)	<i>WASPI is a tool to help share personal information effectively and lawfully between organisations directly concerned with the health, education, safety, crime prevention and social well-being of people in Wales.</i>
Mae ISP yn cynorthwyo rhannu gwybodaeth bersonol yn rheolaidd a chyfartal rhwng rheolyddion data am reswm penodedig.	Protocol Rhannu Gwybodaeth (ISP) Information Sharing Protocol (ISP)	<i>ISPs support, regular and reciprocal sharing of personal information between data controllers for a specified purpose.</i>
Mae DDA yn cynorthwyo datgelu gwybodaeth un ffordd o un rheolydd data i un neu fwy o reolyddion data am reswm penodedig.	Gytundeb Datgelu Data (DDA) Data Disclosure Agreement (DDA)	<i>DDAs support one-way disclosures of information from a data controller to one or more data controllers.</i>
Dogfen sydd yn darparu digon o sicrwydd fod trydydd parti yn cydymffurfio â	Tystysgrif Dinistr	<i>A document that provides sufficient guarantees that a third party complies with</i>

chyfraith diogelu data pan yn dinistrio cofnodion ar ran yr ysgol.	Certificate of Destruction	<i>data protection law when disposing of records on behalf of the school.</i>
Mae Cais gan Wrthrych y Data (SAR) yn gais a wneir gan neu ar ran unigolyn am yr wybodaeth y mae ganddynt hawl i ofyn i sefydliad amdani o dan UK GDPR.	Cais gan Wrthrych y Data Data Subject Access Request	<i>A Subject Access Request (SAR) is a request made by or on behalf of an individual for the information which they are entitled to ask an organisation for under the UK GDPR.</i>
Cais am wybodaeth a gedwir gan gyrff cyhoeddus o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.	Cais Rhyddid Gwybodaeth (RhG) Freedom of Information (FOI) Request	<i>Request for information held by public bodies under the Freedom of Information Act 2000.</i>
Mae cyfrifoldeb rhiant yn golygu hawliau cyfreithiol, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd gan riant dros blentyn ac eiddo'r plentyn. Mae gan berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn yr hawl i wneud penderfyniadau am ei ofal a'i fagwraeth.	Cyfrifoldeb Rhiant Parental Responsibility	<i>Parental responsibility means the legal rights, duties, powers, responsibilities, and authority a parent has for a child and the child's property. A person who has parental responsibility for a child has the right to make decisions about their care and upbringing.</i>
Y ffurflen SA3 ydi'r ffurflen swyddogol mae'r Heddlu yn gorfod ei defnyddio pan yn gwneud cais am wybodaeth personol.	Ffurflen SA3- Cais i sefydliad allanol am ddatgelu data personol i'r Heddlu SA3 Form- Request to external organisation for the disclosure of personal data to the Police	<i>The SA3 form is the official form that the Police must use when making a request for personal information.</i>
Mae cytundeb lefel gwasanaeth yn gontract ffurfiol neu anffurfiol rhwng darparwr gwasanaeth mewnol neu allanol a defnyddiwr terfynol y gwasanaeth. Mae'n nodi'r hyn y bydd y cleient yn ei dderbyn ac yn egluro'r hyn a ddisgwylir gan y darparwr gwasanaeth.	Cytundeb Lefel Gwasanaeth Service Level Agreement	<i>A service level agreement is a formal or informal contract between an internal or external service provider and the end user of the service. It specifies what the client will receive and clarifies what is expected of the service provider.</i>

Sefydliadau / Organisations

Disgrifiad	Sefydliad / Organisation	Description
<p>Yr ICO yw corff annibynnol y DU (awdurdod goruchwyllo) a sefydlwyd i gynnal hawliau gwybodaeth. Rôl yr ICO yw cynnal hawliau gwybodaeth er budd y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys ymdrin â chwynion ynghylch problemau, cael gafael ar wybodaeth bersonol gan sefydliad, neu os oes pryderon ynghylch sut mae sefydliad wedi ymdrin â gwybodaeth - os yw'r wybodaeth yn anghywir, wedi'i cholli neu ei datgelu i rywun arall. Adroddir am achosion o dorri data sy'n risg uchel i unigolion i'r ICO.</p> <p>Ffôn: 0303 123 1113</p> <p>Cyfeiriad: Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF</p> <p>Mae cyngor ac arweiniad ar gael drwy eu gwefan: www.ico.org.uk</p> <p>Swyddfa ICO Cymru</p> <p>Ffôn: 0330 414 6421</p> <p>E-bost: wales@ico.org.uk</p> <p>Cyfeiriad: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru Yr Ail Lawr, Tŷ Churchill,</p>	<p>Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)</p> <p>Information Commissioner's Office (ICO)</p>	<p><i>The ICO is the UK's independent body (supervisory authority) set up to uphold information rights. The ICO's role is to uphold information rights in the public interest. This includes dealing with complaints regarding problems accessing personal information from an organisation, or if there are concerns about how an organisation has handled information- if the information is wrong, has been lost or disclosed to someone else. Data breaches that are a high risk to individuals are reported to the ICO.</i></p> <p>Telephone: 0303 123 1113</p> <p>Address: Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF</p> <p>Advice and guidance are available via their website www.ico.org.uk</p> <p>ICO Wales Office</p> <p>Telephone: 0330 414 6421</p> <p>E-mail: wales@ico.org.uk</p> <p>Address: Information Commissioner's Office – Wales, 2nd Floor, Churchill House, Churchill Way, Cardiff, CF10 2HH</p>

Ffordd Churchill, Caerdydd, CF10 2HH		
<p>Darparu ymateb effeithiol i ddigwyddiadau er mwyn lleihau niwed i'r DU, helpu gydag adferiad, a dysgu gwersi ar gyfer y dyfodol pan fydd digwyddiad seiberddiogelwch wedi digwydd- mae sefydliadau'n rhoi gwybod i'r NCSC am ddigwyddiadau seiber.</p> <p>Mae'r NCSC hefyd yn cydweithio â sefydliadau gorfodaeth ac amddiffyniad y gyfraith eraill, asiantaethau cudd-wybodaeth a diogelwch y DU a phartneriaid rhyngwladol. https://www.ncsc.gov.uk/</p>	The National Cyber Security Centre (NCSC)	<p><i>Provide effective incident response to minimise harm to the UK, help with recovery, and learn lessons for the future when a cyber-security incident has occurred- organisations report cyber incidents to the NCSC.</i></p> <p><i>The NCSC also works collaboratively with other law enforcement, defence, the UK's intelligence and security agencies and international partners.</i> https://www.ncsc.gov.uk/</p>
<p>Mae gan yr Archifdy Cenedlaethol rôl o oruchwylio ac arwain ar gyfer y sector archifdy cyfan a'r proffesiwn archifdy yn y DU, gan gynnwys archifau llywodraeth leol ac anllywodraethol.</p>	Yr Archifdy Cenedlaethol The National Archives	<i>The National Archives has a role of oversight and leadership for the entire archives sector and archives profession in the UK, including local government and non-governmental archives.</i>

Deddfwriaeth, Deddfau a Chanllawiau / Laws, Acts and Guidance

Deddfwriaeth, Deddfau a Chanllawiau	Laws, Acts and Guidance
Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig (UK GDPR)	<i>The UK General Data Protection Regulation (UK GDPR)</i>
Deddf Diogelu Data 2018	<i>Data Protection Act 2018</i>
Cyfnodau Cadw Ysgolion 2018	<i>Schools Retention Period 2018</i>
<i>Surveillance Camera Commissioner's Code of Practice- In the picture: A data protection code of practice for surveillance cameras and personal information</i>	<i>Surveillance Camera Commissioner's Code of Practice- In the picture: A data protection code of practice for surveillance cameras and personal information</i>
<i>Information Commissioner's Office (ICO) 'Subject access code of practice: Dealing with requests from individuals for personal information'</i>	<i>Information Commissioner's Office (ICO) 'Subject access code of practice: Dealing with requests from individuals for personal information'</i>
<i>Data Sharing Code of Practice</i>	<i>Data Sharing Code of Practice</i>

Cod Plant - Dyluniad sy'n briodol i oedran: cod ymarfer ar gyfer gwasanaethau ar-lein.	<i>Children's Code- Age-appropriate design: a code of practice for online services</i>
<i>Right of access: detailed guidance</i>	<i>Right of access: detailed guidance</i>
<i>Information Commissioner's Office (ICO)- Taking Photographs in Schools</i>	<i>Information Commissioner's Office (ICO)- Taking Photographs in Schools</i>
<i>Information Commissioner's Office (ICO) - 'Data controllers and data processors: what the difference is and what the governance implications are'.</i>	<i>Information Commissioner's Office (ICO) - 'Data controllers and data processors: what the difference is and what the governance implications are'.</i>
<i>The General Data Protection Regulation: Guidance on Consent (Information Governance Alliance)</i>	<i>The General Data Protection Regulation: Guidance on Consent (Information Governance Alliance)</i>
<i>Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000</i>	<i>Freedom of Information Act 2000</i>
<i>Deddf Hawliau Dynol 1998</i>	<i>Human Rights Act 1998</i>
<i>Protection of Freedoms Act 2012</i>	<i>Protection of Freedoms Act 2012</i>
<i>Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2004</i>	<i>The Education (Pupil Information) (Wales) Regulations 2004</i>
<i>Llywodraeth Cymru - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Rhannu gwybodaeth i ddiogelu plant, Canllaw anstatudol i ymarferwyr, Gorffennaf 2019</i>	<i>Welsh Government- Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, Working Together to Safeguard People, Information sharing to safeguard children, Non-statutory guide for practitioners, July 2019</i>
<i>Reoliadau Diogelu Data (Ffioedd a Gwybodaeth) 2018</i>	<i>Data Protection (Charges and Information) Regulations 2018</i>
<i>Information Commissioner's Opinion: The use of live facial recognition technology in public places</i>	<i>Information Commissioner's Opinion: The use of live facial recognition technology in public places</i>